

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

39/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

26/05/2022

Arolwg Cymru yn asesu effaith COVID-19 ar ymddygiadau ffordd o fyw sy'n effeithio ar yr amgylchedd: camau 1 a 2

Arolwg Cymru yn asesu effaith COVID-19 ar ymddygiadau
ffordd o fyw sy'n effeithio ar yr amgylchedd – camau 1 a 2
Awdur: Christianne Tipping

Adroddiad Ymchwil Llawn: Tipping, Christianne, (2021). Arolwg Cymru yn asesu effaith COVID-19 ar ymddygiadau ffordd o fyw sy'n effeithio ar yr amgylchedd – camau 1 a 2. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 39/2022
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/effaith-covid-19-ar-ymddygiadau-ffordd-o-fyw-syn-cael-effaith-ar-yr-amgylchedd-tonnau-1-2>

Barn yr ymchwilwyr yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o anghenraid barn Llywodraeth Cymru

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag:

Aimee Marks

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

YmchwilDyfodolCynaliadwy@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o ffigurau	2
Geirfa 4	
1. Cyflwyniad/Cefndir	5
2. Methodoleg	9
3. Canfyddiadau: Agweddau at y newid yn yr hinsawdd	12
4. Canfyddiadau: Ymddygiadau a Bwriadau Teithio.....	14
5. Canfyddiadau: Prynu bwyd, dewisiadau dietegol a gwastraff.....	25
6. Canfyddiadau: Ymddygiadau siopa.....	29
7. Canfyddiadau: Ymddygiadau, pryderon a bwriadau yn ymwneud ag ynni	33
8. Canfyddiadau: Defnyddio dŵr	37
9. Canfyddiadau: Hamdden.....	39
10. Canfyddiadau: Ymddygiadau o blaid yr amgylchedd	42
11. Canfyddiadau: Agweddau tuag at ddulliau polisi.....	46
12. Canfyddiadau: Llesiant.....	48
13. Canfyddiadau: Parhau ag ymddygiadau ar ôl codi'r cyfyngiadau.....	50
14. Casgliadau	55
Atodiad A – Arolygon ffordd o fyw COVID-19	61
Atodiad B – Arolwg sampl Targed ac Wedi'i Gyflawni yng Ngham 1	91

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Lefelau pryder am faterion amgylcheddol a chymdeithasol amrywiol (Cyfnod Amser C)	13
Ffigur 2: Newidiadau yn nhrefniadau gweithle pobl.....	14
Ffigur 3: Dewis dull teithio o'r cartref i'r gwaith.....	16
Ffigur 4: Bwriad i gynnal cyfarfodydd rhithwir/ar-lein yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb pan gaiff cyfyngiadau coronafeirws eu codi.	18
Ffigur 5: Bwriad i ddefnyddio trafnydiaeth gyhoeddus pan gaiff y cyfyngiadau coronafeirws eu dileu.....	19
Ffigur 6: Bwriad i hedfan at ddibenion gwyliau neu hamdden pan gaiff cyfyngiadau coronafeirws eu dileu	20
Ffigur 7: Bwriad i gerdded, beicio neu yrru pan gaiff y cyfyngiadau coronafeirws eu dileu (cyfnod amser C).....	22
Ffigur 8: Lefel y gefnogaeth i gynyddu lle i gerdded a beicio mewn trefi a dinasoedd, trwy leihau lle i geir a faniau.....	23
Ffigur 9: Lefel y gefnogaeth i annog pobl i weithio gartref os oes modd yn ystod cyfnod amser C.....	24
Ffigur 10: Dewis siop ar gyfer y prif siopa wythnosol	26
Ffigur 11: Dewis siopau ar gyfer siopa wythnosol ychwanegol	27
Ffigur 12: Gwariant ar fwyd mewn bwytai, ffreuturau a siopau tecawê	29
Ffigur 13: Prynu eitemau mawr neu ddud	30
Ffigur 14: Gwariant bob mis ar ddillad ac esgidiau i chi eich hun.....	31
Ffigur 15: Lefel pryderon am allu talu am filiau ynni.....	34
Ffigur 16: Sawl gwaith yr wythnos mae pobl yn cael cawod	38
Ffigur 17: Oriau'r wythnos yn ymweld â manau awyr agored lleol	40
Ffigur 18: Oriau'r wythnos yn siopa am eitemau nad ydynt yn eitemau bwyd, gan gynnwys siopa ar-lein.....	41
Ffigur 19: Lefelau bwytia bwyd sy'n cael ei dyfu'n lleol neu fwyd tymhorol bob mis	43
Ffigur 20: Ymddygiadau misol o ran addasu eitem at ddiben gwahanol yn hytrach na'i thafllu	44
Ffigur 21: Defnydd misol o eitemau untro er bod dewis amgen aml dro ar gael	45

Ffigur 22: Lefel y cytundeb y dylai'r llywodraeth roi blaenoriaeth i adferiad economaidd, hyd yn oed os yw'n golygu gwneud penderfyniadau sy'n ddrwg i'r amgylchedd.....	47
Ffigur 23: Newidiadau mewn profiad goddrychol o straen sy'n gysylltiedig â'r pandemig coronafeirws a'r mesurau i'w reoli	49

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
CAST	Canolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol.
Prif siopa wythnosol	Siopa i brynu'r rhan fwyaf o eitemau sydd eu hangen am gyfnod penodol, er enghraifft siopa am wythnos.
Canolrif	Rhif canol rhestr a drefnwyd, lle mae hanner yr ymatebion yn uwch na'r canolrif a'r hanner arall yn is na'r canolrif. Mae'n darparu 'gwerth nodweddiadol' gan nad yw wedi'i ystumio gan gyfran fechan o werthoedd eithafol.
Cymedrig	Yr ymateb cyfartalog mewn set o ymatebion, sy'n cael ei gyfrifo trwy adio'r holl werthoedd a ddarparwyd yn yr ymatebion a rhannu'r rhif hwn â nifer yr ymatebion (h.y. nifer y gwerthoedd).
Cyfnod amser A	Y cyfnod cyn 23 Mawrth 2020. Casglwyd data rhwng 22 a 26 Mehefin 2020 a gofynnwyd i gyfranogwyr feddwl am eu hymddygiadau cyn 23 Mawrth 2020 a dechrau'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ledled y DU.
Cyfnod amser B	Data a gasglwyd rhwng 22 a 26 Mehefin 2020 yn gofyn am ymddygiadau presennol (ym mis Mehefin 2020).
Cyfnod amser C	Data a gasglwyd rhwng 23 Hydref 2020 a 9 Tachwedd 2020 yn gofyn am ymddygiadau presennol (ym mis Hydref/Tachwedd 2020).
Siopa ychwanegol	Mynd i siopa i brynu nifer fach o eitemau yr anghofwyd eu prynu neu sydd wedi'u defnyddio ers y prif siopa wythnosol.
Archfarchnad Gadwyn Leol	Archfarchnadoedd llai sy'n perthyn i gadwyni archfarchnadoedd y DU, sy'n tueddu i gael eu lleoli yng nghanol trefi neu ddinasoedd, y stryd fawr neu wrth ymyl ystadau tai a datblygiadau.

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Mae pandemig COVID-19, a'r mesurau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael ag ef, wedi cael effaith fawr ar ymddygiadau pobl o ddydd i ddydd¹. Oherwydd graddfa'r tarfu, gallai'r cyfnod heriol iawn hwn fod yn gyfle prin a phwysig i bobl roi'r gorau i ffyrdd anghynaliadwy o fyw a mabwysiadu ymddygiadau sy'n fwy buddiol i'r amgylchedd. Er mwyn i wleidyddion a llunwyr polisi ddeall y ffordd orau o hwyluso newid cyffredinol i fywyd carbon isel, mae angen asesu sut mae ymddygiadau, agweddau a bwriadau wedi newid ers dechrau'r pandemig, a sut maent yn parhau i newid dros amser.
- 1.2 I'r perwyl hwn, ym mis Mai 2020, comisiynwyd y Ganolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol (CAST) ac YouGov gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg o bobl sy'n byw yng Nghymru. Ei nod oedd archwilio effeithiau COVID-19 ar ymddygiadau amrywiol sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw ac yn cael effaith ar yr amgylchedd; casglwyd agweddau ymatebwyr at yr amgylchedd a'u bwriadau o safbwynt eu hymddygiadau yn y dyfodol hefyd, yn ogystal ag ymatebion i fesurau gwahanol o lesiant. Yr Athro Lorraine Whitmarsh o CAST oedd yn bennaf cyfrifol am ddylunio'r arolwg, ac fe gafwyd mewnbwn ychwanegol gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a Thîm Tystiolaeth Strategol yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru – ewch i Atodiad A i weld cwestiynau'r arolwg. YouGov oedd yn gyfrifol am gasglu'r data, gan ddefnyddio panel ar-lein YouGov. Ceir rhagor o wybodaeth am y panel yn y fethodoleg.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y ddwy don gyntaf o gasglu data. Cwblhawyd y don gyntaf ym mis Mehefin 2020 yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ledled y DU²; gofynnwyd i ymatebwyr ateb cwestiynau yn ymwneud â mathau amrywiol o ymddygiadau ar y pryd (h.y. yn ystod y cyfyngiadau symud), a gofynnwyd iddynt hefyd am yr hyn yr arferent ei wneud cyn cyflwyno cyfyngiadau symud am y tro cyntaf ledled y DU ar 23 Mawrth 2020.

¹[Coronavirus and the social impacts on behaviours during different lockdown periods, Great Britain](#)

²Adeg casglu'r data rhwng 22 a 26 Mehefin 2020, roedd yr holl fusnesau manwerthu nad oeddent yn hanfodol a chyfleusterau gofal plant wedi ailagor. Fodd bynnag, nid oedd ysgolion wedi agor eto. Roedd y rheol 'aros yn eich ardal leol' ar waith o hyd.

- 1.4 Ar gyfer yr ail don, casglwyd data ym mis Tachwedd 2020. Gofynnwyd yr un gyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr, gyda'r nod o asesu i ba raddau roedd ymddygiadau wedi newid ers y don gyntaf o gasglu data ym mis Mehefin 2020, er mwyn nodi a oedd mathau o ymddygiadau penodol wedi parhau neu wedi cymryd cam yn ôl ar ôl i bobl fwynhau mwy o ryddid am gyfnod. Ar gyfer yr ail don, casglwyd y data tua diwedd y 'cyfnod atal byr' yng Nghymru, a gynhaliwyd rhwng 23 Hydref 2020 a 9 Tachwedd 2020.³ Roedd cyfnod arall o gyfyngiadau symud ar waith, neu ar fin dod i ben, pan oedd yr ymatebwyr yn cwblhau'r arolwg.
- 1.5 Cynhaliwyd arolwg arall i gasglu data ym mis Gorffennaf 2021. Caiff y data hwn ei gyhoeddi mewn adroddiad ar wahân.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau sy'n deillio o ddadansoddi newidiadau mewn ymddygiadau, agweddau a bwriadau adeg y don gyntaf o gasglu data ym mis Mehefin 2020 o'i gymharu â'r ail don ym mis Tachwedd 2020. Hefyd, lle y bo'n berthnasol, bydd yn gosod hyn yng nghyd-destun mathau o ymddygiadau ac agweddau a nodwyd gan bobl cyn y pandemig, wedi'u cofnodi yn ôl-weithredol yn y don gyntaf o gasglu data. Cwblhawyd y dadansoddiad gan Christianne Tipping, myfyriwr PhD yn y Ganolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol. Mae'r adroddiad yn ymdrin ag amrywiaeth o feysydd gan gynnwys:
- Teithio
 - Deiet
 - Gwastraff bwyd
 - Siopa
 - Defnydd o ynni
 - Defnyddio dŵr
 - Hamdden

³Ar ddechrau'r cyfnod o gasglu data yn ystod y cyfnod atal byr, roedd y rheolau canlynol ar waith: Roedd yn ofynnol i bobl aros gartref, ac eithrio at ddibenion cyfyngedig iawn, ac nid oedd hawl ganddynt ymweld neu gyfarfod â phobl nad oeddent yn byw gyda nhw. Roedd rhai busnesau a lleoliadau, gan gynnwys bariau, bwytai a'r rhan fwyaf o siopau, ar gau. Roedd ysgolion cynradd a lleoliadau gofal plant ar agor o hyd; roedd ysgolion uwchradd ar agor i blant ym mlynnyddoedd 7 ac 8 yn unig.

Pan ddaeth y cyfnod atal byr i ben ar 9 Tachwedd 2020, roedd y rheolau canlynol ar waith: roedd dwy aelwyd yn gallu ffurfio aelwyd estynedig (neu swigen); gallai hyd at 15 o bobl gymryd rhan mewn digwyddiadau wedi'u trefnu dan do, a gallai hyd at 30 o bobl fynychu digwyddiad yn yr awyr agored; roedd pob safle a fu ar gau yn gallu ailagor.

- Llesiant
- Mathau o ymddygiadau o blaid yr amgylchedd
- Cymorth ar gyfer dulliau polisi penodol

- 1.7 Mae Pennod 2 yn crynhoi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Mae'n esbonio'r dull casglu data a'r camau casglu data gwahanol yn fanylach. Nodir cafeatau yn ymwneud â'r dull hwn ym mhennod 2 hefyd.
- 1.8 Mae Pennod 3 yn ymdrin â chanfyddiadau yn ymwneud ag agweddau cyfranogwyr tuag at newid yn yr hinsawdd ac adferiad gwyrdd.
- 1.9 Mae Pennod 4 yn crynhoi'r canfyddiadau yn ymwneud ag ymddygiadau teithio cyfranogwyr, gan gynnwys eu bwriadau teithio yn y dyfodol. Mae'r bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau gweithio a theithio cyfranogwyr adeg yr arolwg, eu profiad o weithio gartref a'u bwriadau i wneud hynny yn y dyfodol, eu defnydd o dechnolegau rhithwir, a'u bwriadau yn y dyfodol o safbwynt trafndiaeth gyhoeddus.
- 1.10 Mae Pennod 5 yn ymdrin â phrynu bwyd, dewisiadau dietegol a gwastraff. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion i gwestiynau yn ymwneud â dewis siopau ar gyfer siopa bwyd wythnosol a siopa am eitemau ychwanegol, bwyta cig coch, cig gwyn, a physgod neu fwyd môr a gwastraff bwyd.
- 1.11 Mae Pennod 6 yn ymwneud ag ymddygiadau siopa cyfranogwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar brynu bwyd o fwytai, ffreuturau a siopau tecawê, prynu eitemau mawr neu ddrud ac ymddygiadau gwario arall.
- 1.12 Mae Pennod 7 yn ymdrin ag ymddygiadau, pryderon a bwriadau yn ymwneud ag ynni. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau am ddefnyddio ynni, pryderon am dalu biliau ynni, a'r posibilrwydd o fabwysiadu technolegau sy'n gysylltiedig â gwella effeithlonrwydd ynni neu ddefnyddio llai o adnoddau ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.
- 1.13 Mae Pennod 8 yn ymwneud â defnyddio dŵr, gan ganolbwyntio'n benodol ar sawl gwaith y mae cyfranogwyr yn cael bath neu gawod, ac am faint o amser y maent yn aros yn y gawod.
- 1.14 Mae Pennod 9 yn crynhoi'r canfyddiadau yn ymwneud â hamdden. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau am faint o amser y mae cyfranogwyr yn ei neilltuo ar gyfer

gweithgareddau fel garddio, treulio amser mewn mannau awyr agored, gwneud ymarfer corff a chwaraeon, siopa am eitemau nad ydynt yn fwyd ac amser i fwynhau hobiau creadigol.

- 1.15 Mae Pennod 10 yn ymdrin â mathau o ymddygiadau o blaid yr amgylchedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar sawl gwaith y mis roedd cyfranogwyr wedi ymgymryd â mathau penodol o ymddygiadau.
- 1.16 Mae Pennod 11 yn amlinellu agweddau tuag at ddulliau polisi. Yn benodol, mae'r bennod hon yn ymdrin ag agweddau at flaenoriaethu newid yn yr hinsawdd yn ystod yr adferiad economaidd yn dilyn y pandemig, neu flaenoriaethu adferiad economaidd hyd yn oed os yw hynny'n golygu gwneud penderfyniadau sy'n ddrwg i'r amgylchedd.
- 1.17 Mae Pennod 12 yn crynhoi llesiant goddrychol ymatebwyr gan ddefnyddio'r pedwar cwestiwn llesiant personol (SYG4) a ddatblygwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Hefyd, mae'r bennod hon yn ymdrin ag i ba raddau, os o gwbl, y mae pandemig COVID a'r cyfyngiadau cysylltiedig wedi achosi straen i gyfranogwyr.
- 1.18 Mae Pennod 13 yn ymdrin ag agweddau ar ffordd o fyw neu ymddygiadau cyfranogwyr a oedd wedi newid ers cyflwyno cyfyngiadau COVID-19, ac a fyddai'r cyfranogwyr yn hoffi cadw'r newidiadau hyn ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu dileu.

2. Methodoleg

Camau casglu data

- 2.1 **Cam 1:** Casglwyd data yn ystod y cyfnod 22-26 Mehefin 2020. Yn ystod y don hon o'r broses casglu data, gofynnwyd i'r cyfranogwyr am natur eu hymddygiadau adeg casglu'r data, a gofynnwyd iddynt feddwl am eu hymddygiadau cyn cyflwyno'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud ar 23 Mawrth 2020. Drwy gydol yr adroddiad hwn, cyfeirir at y mathau o ymddygiadau sy'n cyfeirio at y cyfnod cyn 23 Mawrth 2020 fel cyfnod amser A. Cyfeirir at y cwestiynau sy'n ymwneud ag amser casglu data yn ystod y don hon fel cyfnod amser B (h.y. mis Mehefin 2020).
- 2.2 **Cam 2:** Casglwyd y data yn ystod y cyfnod 6-23 Tachwedd 2020. Ar yr adeg hon, gofynnwyd cwestiynau am natur ymddygiadau cyfranogwyr adeg casglu'r data hwn yn unig. Cyfeirir at y cyfnod amser hwn fel cyfnod amser C drwy gydol yr adroddiad.

Casglu Data

- 2.3 Gweinyddwyd yr arolwg hwn drwy banel ar-lein YouGov, ac roedd yn cynnwys ailgysylltu â chyfranogwyr. Mae YouGov yn cynnal panel gwirfoddol lle mae cyfranogwyr yn cofrestru ac yn cymryd rhan mewn arolygon ar-lein yn gyfnewid am 'bwyntiau' y gellir eu defnyddio wedyn i hawlio gwobr ariannol. Ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, dim ond cyfranogwyr panel YouGov a ddywedodd eu bod yn byw yng Nghymru a gafodd wahoddiad i gymryd rhan. Roedd yr arolwg ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 2.4 Defnyddiodd YouGov eu panel ar-lein presennol i gwblhau'r broses samplu ar gyfer yr arolwg. Defnyddiwyd sampl cwota i gynhyrchu sampl a fyddai'n cynrychioli poblogaeth oedolion Cymru (18 oed a throsodd). Mae data ar y sampl targed a'r sampl a gyflawnwyd i'w weld yn Atodiad B. Roedd cam cyntaf y broses casglu data yn ystod y cyfnod 22-26 Mehefin 2020 wedi arwain at sampl y gellir ei defnyddio o 1,108 o ymatebwyr.
- 2.5 Cysylltwyd â'r un ymatebwyr ar gyfer ail don y broses casglu data a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 6-23 Tachwedd. Cafodd enw un cyfranogwr ei ddileu o'r set ddata gan nad oedd wedi ymateb i don gyntaf yr arolwg ac, felly, nid oedd llinell sylfaen ar

gael i asesu ei ymatebion. Arweiniodd y dull hwn at sampl y gellid ei defnyddio o 898, a oedd yn cyfateb i 81% o'r sampl wreiddiol.

- 2.6 Roedd y sampl yn cynnwys 42% o ddynion a 58% o fenywod, a'r oedran cymedrig oedd 54.3 oed, gydag ystod oedran o 18-90 oed. Ar gyfer dwy don y broses casglu data, darparodd YouGov newidyn pwysoli safonol y gellid ei ddefnyddio yn ystod y dadansoddiad er mwyn sicrhau bod y sampl yn gynrychioli⁴ poblogaeth Cymru o safbwynt demograffig a gwleidyddiaeth. Cyfrifwyd y newidyn pwysoli trwy ddefnyddio oedran, rhywedd, addysg, gradd gymdeithasol, sylw gwleidyddol, rhanbarth, ynghyd â phleidleisiau yn Etholiad Cyffredinol 2019 a Refferendwm yr UE 2016.

Dadansoddi Data

- 2.7 Yn yr adroddiad hwn, mae ystadegau disgrifiadol a newidiadau canrannol yn cael eu nodi ar ôl i'r newidyn pwysoli safonol gael ei gymhwyso, sy'n caniatáu i'r ymchwilydd ddod i gasgliad ynglŷn â newidiadau sy'n digwydd ar lefel y boblogaeth.
- 2.8 Drwy gydol yr adroddiad hwn, os yw nifer yr ymatebwyr i gwestiwn penodol yn llai na chyfanswm yr ymatebion (898) – naill ai am fod y cwestiwn wedi'i ofyn i is-grwpiau penodol neu oherwydd bod ymatebion wedi'u hanwybyddu neu eu bod ar goll – rhoddir maint diwygiedig y sampl (N).
- 2.9 Yn arolwg cam 2, gofynnwyd dau gwestiwn i ymatebwyr a oedd yn caniatáu ymatebion testun rhydd. Dadansoddwyd y data a ddeilliodd o hyn ar sail thematig mewn taenlen Excel. Cafodd ymatebion eu clystyru'n categorïau yn seiliedig ar debygrwydd. Rhannwyd ymatebion aml-ran yn cynnwys elfennau a oedd yn perthyn i categorïau gwahanol, a gosodwyd pob rhan yn y categori perthnasol. Er mwyn lleihau'r nifer fawr o categorïau a oedd wedi'u creu ar ôl dyrannu'r ymatebion yn wreiddiol, cafodd categorïau llai eu cyfuno o dan themâu cyffredin. Roedd hon yn broses ailadroddol a arweiniodd yn y pen draw at set fwy hylaw a mwy defnyddiol o categorïau. Gan fod llawer o ymatebwyr wedi cynnig ymatebion aml-ran i'r

⁴Mae You Gov yn defnyddio'r pwysoliad hwn fel elfen safonol. Nid oedd y gwaith ymchwil hwn yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o farn wleidyddol.

cwestiynau hyn yng nghanam 2, bydd cyfanswm y canrannau amrywiol a ddyfynnir yn yr adroddiad yn fwy na 100%.


Cafeatau

- 2.10 Yn ystod y don gyntaf o gasglu data ym mis Mehefin 2020, gofynnwyd i gyfranogwyr gofio yn ôl i'w hymddygiadau dyddiol cyn 23 Mawrth 2020. Mae cofio ymddygiadau mewn ffordd ôl-weithredol fel hyn yn debygol o gynnwys rhai gwallau. Fodd bynnag, o ystyried natur annisgwyl y pandemig, dyma'r unig ffordd o gasglu data ar ymddygiadau cyn y pandemig ar gyfer y sampl hon.
- 2.11 Oherwydd natur y platfform casglu data, YouGov, gallai hyn fod wedi achosi rhywfaint o duedd yn yr ymatebion a ddarparwyd. Yn gyntaf, gan fod cyfranogwyr yn ymuno â'r platfform er mwyn cymryd rhan, mae hyn yn debygol o arwain at duedd hunan-ddethol. Yn ail, oherwydd natur ar-lein yr arolwg, mae'n bosibl na fydd y canfyddiadau yn cynrychioli barn pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.
- 2.12 Oherwydd natur y cwestiynau ar fathau o ymddygiadau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd, mae'n debyg y bydd rhywfaint o duedd o ran dymunoldeb cymdeithasol mewn ymatebion i'r cwestiynau hyn.

3. Canfyddiadau: Agweddau at y newid yn yr hinsawdd

- 3.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â chanfyddiadau cyfres o gwestiynau a ofynnwyd i gyfranogwyr am eu hagweddau tuag at newid yn yr hinsawdd ac adferiad gwyrdd.
- 3.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor bryderus oeddent am faterion amgylcheddol a chymdeithasol gwahanol a gyflwynwyd ar raddfa pum pwynt, yn amrywio o 'ddim yn poeni o gwbl' i 'bryderus iawn'. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 1.
- 3.3 Yn ystod cyfnod amser B, COVID-19 oedd y mater a oedd yn achosi'r pryder mwyaf, wedyn dinistrio byd natur a bywyd gwylt, llygredd plastig, a newid yn yr hinsawdd. Arhosodd y pedwar pwnc hwn ar frig y tabl yn ystod cyfnod amser C hefyd. Fodd bynnag, roedd dinistrio byd natur, bywyd gwylt a bioamrywiaeth wedi disodli COVID-19 fel y mater a oedd yn peri'r pryder mwyaf, ac roedd 46% o ymatebwyr yn nodi eu bod yn bryderus iawn neu'n hynod bryderus am ddinistrio byd natur o'i gymharu â 41% yn ystod cyfnod amser B.
- 3.4 Er nad COVID-19 oedd yn peri'r pryder mwyaf yn ystod cyfnod amser C, roedd pryder am COVID-19 wedi cynyddu rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C, ac roedd 44% o ymatebwyr yn bryderus iawn neu'n hynod bryderus amdano o'i gymharu â 43% yng nghyfnod amser B. Yn yr un modd, roedd pryder am newid yn yr hinsawdd wedi cynyddu yng nghyfnod amser C, ac roedd 37% o ymatebwyr yn nodi eu bod yn bryderus iawn neu'n hynod bryderus am y mater hwn o'i gymharu â 34% yng nghyfnod amser B.
- 3.5 O ystyried y cyfnod pan gasglwyd y data yng nghyfnod amser C (Tachwedd 2020), gellid bod wedi rhagweld y byddai pryder am Brexit wedi cynyddu gan fod y DU yn bwriadu ymadael â'r UE ar 31 Rhagfyr 2020. Dengys y canfyddiadau bod cyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn bryderus iawn neu'n hynod bryderus am y mater hwn wedi cynyddu ychydig o 26% i 29%.

Ffigur 1: Lefelau pryder am faterion amgylcheddol a chymdeithasol amrywiol (Cyfnod Amser C)




N= 897. Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Pa mor bryderus ydych chi am y materion canlynol ar hyn o bryd?

3.6 Yn ystod cyfnod amser B, roedd 65% o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a bod angen gwneud hynny ar frys neu ar frys mawr. Roedd y gyfran hon wedi gostwng i 61% yng nghyfnod amser C.

4. Canfyddiadau: Ymddygiadau a Bwriadau Teithio

- 4.1 Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r ymatebion i gwestiynau am ymddygiadau teithio unigolion a'u bwriadau yn y dyfodol mewn perthynas â theithio.
- 4.2 Cyn cyflwyno cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr am deithio, gofynnwyd iddynt am eu trefniadau gweithio presennol. Fel y gwelir yn Ffigur 2 isod, nid oedd unrhyw newid yng nghyfran y bobl sy'n gweithio'n gyfan gwbl o gartref (18% yng nghyfnod amser B a chyfnod amser C). Roedd cyfran y bobl nad oeddent yn gweithio neu wedi'u rhoi ar ffyrlo wedi gostwng (o 63% i 51%), ac adlewyrchwyd hyn yn y cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn gweithio'n gyfan gwbl mewn gweithle oddi cartref (14% i 25%). Roedd cynnydd llai yn nifer y bobl yn gweithio'n rhannol o gartref ac yn rhannol mewn gweithle oddi cartref rhwng y ddau gyfnod amser (4% i 5%).


Ffigur 2: Newidiadau yn nhrefniadau gweithle pobl



N= 897. Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Yn gyntaf, ychydig o gwestiynau am eich ymddygiadau teithio i'r gwaith. Pa un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi?

- 4.3 Yn ystod cam cyntaf y broses casglu data, gofynnwyd i ymatebwyr am amllder gweithio gartref a'u dull teithio arferol o'r cartref i'r gwaith cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud ar 23 Mawrth 2020 (cyfnod amser A) ac yn ystod cyfnod cyntaf y cyfyngiadau symud (cyfnod amser B). Roedd gostyngiad mawr yn nifer y bobl a oedd yn gweithio oddi cartref am rywffaint o amser neu drwy'r amser, ac felly'n teithio i'r gwaith, ac roedd nifer yr ymatebwyr wedi gostwng o 448 yng nghyfnod amser A i 165 yng nghyfnod amser B. Fel y dangosir Ffigur 3, rhwng cyfnod amser A a chyfnod amser B, cafwyd cynnydd amlwg yng nghanran y bobl a oedd yn defnyddio car neu feic modur i deithio (o 62% i 74%); gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn rhannu car (7% i 1%), a gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn teithio ar y trê'n (6% i 1%). Mae'n debyg bod y newidiadau hyn mewn ymddygiadau yn deillio o gyfyngiad 'teithio hanfodol' Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod amser B. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, ychydig iawn o wahaniaeth a gafwyd yn y defnydd o fysiau rhwng cyfnod amser A a chyfnod amser B.
- 4.4 Yn ystod cyfnod amser C, cynyddodd nifer yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn i 272, a rhagwelir bod hyn yn deillio o'r ffaith bod mwy o bobl yn teithio i'r gwaith eto. Rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C cafwyd gostyngiad bach o 1 pwynt canran yn y defnydd o geir, a 2 bwynt canran yn nifer y bobl a oedd yn defnyddio'r bws, a chynnydd bach ym mhob un o'r categorïau teithio eraill. Cafwyd cynnydd o 3 phwynt canran hefyd yn nifer y bobl a oedd yn cerdded, a chynnydd o 3 phwynt canran yn nifer y bobl a oedd yn dewis defnyddio trê'n neu dram tanddaearol.

Ffigur 3: Dewis dull teithio o'r cartref i'r gwaith




Cyfnod Amser A N = 448. Cyfnod Amser B N = 165. Cyfnod Amser C N = 272. Sylfaen = Ymatebwyr a oedd yn gweithio gartref yn rhannol ac mewn gweithle yn rhannol neu a oedd yn gweithio mewn gweithle oddi cartref yn gyfan gwbl. Cwestiwn yr Arolwg = Sut ydych chi'n teithio i'r gwaith?

- 4.5 Gallai cynnydd mewn lefelau gweithio gartref arwain at newid mewn ymddygiadau teithio sy'n gysylltiedig â gwaith yn fwy hirdymor. Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn gweithio gartref yn gyfan gwbl neu'n rhannol (N=208 yng nghyfnod amser B, N=215 yng nghyfnod amser C) raddio eu profiad o weithio gartref ar raddfa rifiadol o 0-7 lle mae 0 yn negyddol iawn a 7 yn gadarnhaol iawn. Er hwylustod, cafodd yr ymatebion eu cyfuno'n dri chategori: cadarnhaol neu gadarnhaol iawn (5-7 ar y raddfa); niwtral (3-4 ar y raddfa); a negyddol neu negyddol iawn (0-2 ar y raddfa).
- 4.6 Cafwyd rhai newidiadau canrannol rhwng yr ymatebion a gafwyd yn ystod cyfnod amser B a chyfnod amser C. Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr (73% yng nghyfnod amser C; 68% yng nghyfnod amser B) fod eu profiad o weithio gartref yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn, tra bod 21% yn 'niwtral' yng nghyfnod amser C (i lawr o 25% yng nghyfnod amser B), a nododd 6% fod eu profiad yn negyddol

neu'n negyddol iawn yng nghyfnod amser C (gostyngiad bach o 7% yng nghyfnod amser B).

- 4.7 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr am eu bwriad yn y dyfodol o safbwynt gweithio gartref ar ôl i'r holl gyfyngiadau coronafeirws gael eu dileu. Yng nghyfnod amser B, dywedodd 23% o bobl eu bod yn bwriadu gweithio gartref lawer llai aml neu ychydig yn llai aml na'r adeg cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud (cyfnod amser A). Gostyngodd y ganran hon i 19% yng nghyfnod amser C, gan awgrymu bod rhai pobl yn llai cyndyn i weithio gartref. Ategwyd y newid hwn gan gynnydd yn nifer y bobl a ddywedodd eu bod yn bwriadu gweithio gartref am gyfnod tebyg i'r cyfnod cyn y cyfyngiadau symud (o 58% yng nghyfnod amser B i 63% yng nghyfnod amser C). Roedd canran yr ymatebwyr a oedd yn bwriadu gweithio gartref ychydig yn amlach neu lawer yn amlach na'r cyfnod cyn i'r cyfyngiadau symud gael eu rhoi ar waith (cyfnod amser A) wedi aros yn sefydlog ar 18%.
- 4.8 Gallai'r defnydd o dechnolegau rhithwir yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb leihau lefelau teithio yn y dyfodol, a gofynnwyd i ymatebwyr am eu bwriad i ddefnyddio platfformau ar-lein at ddibenion amrywiol ar ôl i'r holl gyfyngiadau gael eu codi. Roedd cyfran y bobl a oedd yn bwriadu cynnal cyfarfodydd ar-lein ychydig yn amlach neu lawer yn amlach na chyn y cyfyngiadau symud wedi aros yn gymharol ddigyfnewid (27% yng nghyfnod amser B a 28% yng nghyfnod amser C) – gweler Ffigur 4. Roedd nifer y bobl a oedd yn bwriadu eu cynnal lawer yn llai aml neu ychydig yn llai aml na chyn y cyfyngiadau symud wedi gostwng o 19% i 16% rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C. Mae'n bosibl bod y newidiadau hyn yn deillio o'r ffaith bod ymatebwyr yn llai cyndyn i ddefnyddio platfformau ar-lein, neu oherwydd newidiadau diwylliannol yn y defnydd o'r technolegau hyn.

Ffigur 4: Bwriad i gynnal cyfarfodydd rhithwir/ar-lein yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb pan gaiff cyfyngiadau coronafeirws eu codi




Cyfnod Amser B N= 895. Cyfnod Amser C N= 895. Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Pan gaiff cyfyngiadau symud coronafeirws eu dileu, ydych chi'n bwriadu cynnal cyfarfodydd rhithwir/ar-lein yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb?

- 4.9 Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'r newid hwn mewn agweddau at gyfarfodydd ar-lein yn berthnasol i ddulliau rhithwir o gymdeithasu gyda ffrindiau a theulu. Roedd cyfran y bobl a oedd yn bwriadu cyfarfod yn rhithwir gyda ffrindiau a theulu ychydig yn amlach neu lawer yn amlach na chyn y cyfyngiadau symud wedi gostwng o 25% yng nghyfnod amser B i 22% yng nghyfnod amser C, tra bod y rhai a oedd yn bwriadu cyfarfod yn rhithwir ychydig yn llai aml neu lawer yn llai aml wedi cynyddu o 19% yng nghyfnod amser B i 20% yng nghyfnod amser C. Yn olaf, roedd cyfran y bobl a oedd yn bwriadu cael apwyntiadau â'r meddyg teulu ar-lein neu dros y ffôn ychydig yn amlach neu lawer yn amlach ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi wedi cynyddu o 28% yng nghyfnod amser B i 31% yng nghyfnod amser C. Roedd y gyfran a oedd yn bwriadu eu cael ychydig yn llai aml neu lawer yn llai aml wedi gostwng o 17% yng nghyfnod amser B i 14% yng nghyfnod amser C, sy'n awgrymu tueddiad bychan tuag at ddefnydd o apwyntiadau meddyg teulu rhithwir.
- 4.10 Gofynnwyd i ymatebwyr am eu bwriad yn y dyfodol i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus (Ffigur 5) a hedfan ar wyliau neu at ddibenion hamdden (Ffigur 6). Yng

nghyfnod amser B, dywedodd 42% o'r ymatebwyr eu bod yn bwriadu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ychydig yn llai aml neu lawer yn llai aml na chyn dechrau'r cyfyngiadau symud. Erbyn cyfnod amser C, roedd hyn wedi gostwng i 31% o'r ymatebwyr. Yn ystod yr un cyfnod, roedd cyfran y bobl a oedd yn bwriadu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i'r un graddau â chyn y cyfyngiadau symud wedi cynyddu o 54% i 65% rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C. Fodd bynnag, roedd canran y bobl a oedd yn bwriadu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ychydig yn fwy aml neu lawer yn fwy aml wedi aros yn ddigyfnewid ar 4% yng nghyfnod amser B ac C. Gall y gostyngiad hwn yng nghanran y bobl a oedd yn bwriadu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn llai aml na chyn y cyfyngiadau symud fod yn arwydd bod pobl yn poeni llai am deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mae nodi'r rheswm am y newid hwn y tu allan i gwmpas y gwaith ymchwil hwn.

Ffigur 5: Bwriad i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus pan gaiff y cyfyngiadau coronafeirws eu dileu




Cyfnod Amser B N= 895 Cyfnod Amser C N= 895. Sylfaen = Pob ymatebydd.

Cwestiwn yr Arolwg = Pan gaiff y cyfyngiadau coronafeirws eu dileu, ydych chi'n bwriadu defnyddio trafndiaeth gyhoeddus?

4.11 Yn ystod cyfnod amser B, dywedodd 41% o'r ymatebwyr eu bod yn bwriadu hedfan ychydig yn llai aml neu lawer yn llai aml na chyn y cyfyngiadau ar ôl iddynt gael eu dileu. Erbyn cyfnod amser C, roedd hyn wedi gostwng i 35%. Cafwyd cynnydd yn nifer y bobl a ddywedodd eu bod yn bwriadu hedfan ychydig yn fwy aml neu lawer yn fwy aml, o 5% yng nghyfnod amser B i 7% yng nghyfnod amser C. Roedd cyfran y bobl a oedd yn bwriadu hedfan mor aml â chyn y cyfyngiadau symud wedi cynyddu o 53% yng nghyfnod amser B i 58% yng nghyfnod amser C. Er bod nodi'r rheswm am y newid y tu allan i gwmpas y gwaith ymchwil hwn, mae'n debygol bod y gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn bwriadu hedfan yn llai aml, a'r cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn bwriadu hedfan mor aml ag o'r blaen neu'n amlach, yn dangos blinder gyda'r pandemig a'r cyfyngiadau, a mwy o awydd i fynd dramor ar wyliau.

Ffigur 6: Bwriad i hedfan at ddibenion gwyliau neu hamdden pan gaiff cyfyngiadau coronafeirws eu dileu




Cyfnod Amser B N= 895 Cyfnod Amser C N= 894. Sylfaen = Pob ymatebydd.

Cwestiwn yr Arolwg = Pan gaiff y cyfyngiadau symud coronafeirws eu dileu, ydych chi'n bwriadu hedfan at ddibenion gwyliau neu hamdden?

- 4.12 Gofynnwyd i ymatebwyr am y tro cyntaf yn ystod cyfnod amser C am eu bwriad i gerdded, beicio a gyrru at ddibenion cymudo, domestig neu hamdden ar ôl i'r holl gyfyngiadau gael eu dileu. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Ffigur 7 isod: Mae 64% o ymatebwyr yn bwriadu cerdded mor aml â chyn y cyfyngiadau symud, ac mae 28% yn bwriadu cerdded ychydig yn fwy aml neu lawer yn fwy aml. Mae 8% yn bwriadu cerdded ychydig yn llai aml neu lawer yn llai aml. O ran beicio, mae 76% o bobl yn bwriadu beicio mor aml â chyn y cyfyngiadau symud, tra bod 9% yn bwriadu beicio ychydig yn fwy aml neu lawer yn fwy aml, ac mae 17% yn bwriadu beicio ychydig yn llai aml neu lawer yn llai aml. Mae'n werth cofio y gall fod effaith dymhorol ar yr ymatebion gan fod y cwestiwn wedi'i ofyn yng nghyfnod amser C ym mis Tachwedd 2020. Hefyd, mae'n bosibl bod pobl yn credu bod mwy o draffig ar y ffyrdd gan fod pobl yn gallu symud yn fwy rhydd (h.y. dileu cyfyngiadau teithio domestig), gan wneud beicio'n opsiwn llai deniadol. Fodd bynnag, mae ceisio canfod a gafodd yr agwedd hon effaith ar ymddygiadau y tu allan i gwmpas y gwaith ymchwil hwn.
- 4.13 O safbwynt bwriadau gyrru yn y dyfodol, yn ystod cyfnod amser C, mae 66% yn bwriadu gyrru mor aml ag y gwnaethant cyn y cyfyngiadau symud, tra bod 23% yn bwriadu gyrru ychydig yn llai aml neu lawer yn llai aml, ac mae 11% yn bwriadu gyrru ychydig yn fwy aml neu lawer yn fwy aml. O safbwynt lleihau carbon, mae'r ffaith bod 28% o ymatebwyr yn bwriadu cerdded mwy a bod 23% o ymatebwyr yn bwriadu gyrru llai yn nodweddion cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'n amhosibl gwybod a yw'r bwriadau hyn yn debygol o bara ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi, ac a fyddant yn arwain at weithredu.

Ffigur 7: Bwriad i gerdded, beicio neu yrru pan gaiff y cyfyngiadau coronafeirws eu dileu (cyfnod amser C)



N= 896. Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Pan gaiff y cyfyngiadau symud coronafeirws eu dileu, ydych chi'n bwriadu cerdded, beicio neu yrru at ddibenion cymudo, domestig neu hamdden?


- 4.14 Roedd cyfres arall o gwestiynau a ofynnwyd yn ystod cyfnod amser C yn unig yn archwilio i ba raddau roedd COVID-19 wedi dylanwadu ar benderfyniad pobl i fynd ar wyliau. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi bod ar wyliau ers 23 Mawrth 2020, ac a oeddent wedi mynd dramor neu wedi aros yn y DU.⁵ O'r 897 o ymatebion, nid oedd 78% o'r ymatebwyr (698 allan o 897) wedi bod ar wyliau o gwbl. O'r 197 o ymatebwyr a oedd wedi bod ar wyliau, roedd 18% wedi ymweld ag un cyrchfan neu fwy yn y DU, ac roedd 5% wedi ymweld ag un cyrchfan neu fwy tramor.⁶ O'r 197 o ymatebwyr a oedd wedi bod ar wyliau, dywedodd 53% fod COVID-19 wedi dylanwadu ar eu dewis o gyrchfan gwyliau, ac o'r 698 o ymatebwyr nad oeddent wedi bod ar wyliau, dywedodd 55% fod COVID-19 wedi dylanwadu ar eu penderfyniad.
- 4.15 Gofynnwyd rhai cwestiynau newydd yn ymwneud â pholisi yn ystod cyfnod amser C nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr arolwg yn ystod cyfnod B. Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn gwrthwynebu neu'n cefnogi cynyddu lleoedd i gerdded a

⁵ Dylid nodi bod cyfyngiadau wedi bod ar waith ar deithio dramor ers mis Mawrth 2020. Am fwy o wybodaeth, ewch i [tudalen we'r Senedd](#). Gallai'r cyfyngiadau hyn fod wedi effeithio ar deithio dramor.

⁶ Mae'r cyfanswm yn fwy na 100% oherwydd bod pump o'r ymatebwyr wedi mynd ar wyliau yn y DU a thramor.

beicio mewn trefi a dinasoedd drwy leihau'r lle ar gyfer ceir a faniau. Roedd yr ymatebion yn seiliedig ar raddfa saith pwynt yn amrywio o 'anghytuno'n gryf' (1), i 'niwtral' (4), i 'cytuno'n gryf' (7). Fel y gwelir yn Ffigur 8, roedd cefnogaeth gref i'r syniad hwn, gyda chyfanswm o 54% yn cefnogi'r datganiad hwn (cyfanswm yr holl ymatebion a ddewisodd sgôr o 5-7), 25% ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu, ac 20% yn gwrthwynebu (cyfanswm yr holl ymatebion a ddewisodd sgôr 1-3).


Ffigur 8: Lefel y gefnogaeth i gynyddu lle i gerdded a beicio mewn trefi a dinasoedd, trwy leihau lle i geir a faniau



N= 897. Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = I ba raddau ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu cynyddu lle i gerdded a beicio mewn trefi a dinasoedd trwy leihau'r lle ar y ffordd ar gyfer ceir a faniau?

4.16 Cafwyd cefnogaeth gryfach fyth i'r syniad o annog pobl i weithio gartref os oedd modd, fel y dangosir yn Ffigur 9. Dim ond 6% o'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu annog pobl i weithio gartref, tra bod 69% yn cefnogi'r syniad.

Ffigur 9: Lefel y gefnogaeth i annog pobl i weithio gartref os oes modd yn ystod cyfnod amser C




N= 897. Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = I ba raddau ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu annog pobl i weithio gartref os ydynt yn gallu?

4.18 Yn ystod cyfnod amser C, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd mesurau wedi'u rhoi ar waith yn eu hardal leol ers dechrau COVID-19 i gynyddu'r lle ar gyfer cerdded/beicio, megis creu parth i gerddwyr ar strydoedd penodol neu ehangu palmentydd. Dywedodd ugain y cant fod mesurau o'r fath wedi'u cyflwyno, a dywedodd 55% nad oeddent wedi'u cyflwyno. Roedd 24% yn ansicr. Gofynnwyd wedyn i'r rhai a oedd wedi dweud bod mesurau wedi'u cyflwyno yn eu hardal i ba raddau roeddent am i'r mesurau gael eu cadw yn yr hirdymor, pan na fyddai COVID-19 yn broblem bellach; roedd opsiynau ymatebion yn seiliedig ar raddfa pum pwynt, a'r categorïau oedd 'llawer', 'i ryw raddau', 'ychydig', 'dim o gwbl' a 'ddim yn gwybod'. Roedd saith deg tri y cant o blaid cadw'r mesurau hyn i ryw raddau, a 25% yn gwrthwynebu.

5. Canfyddiadau: Prynu bwyd, dewisiadau dietegol a gwastraff

5.1 Roedd y cyntaf mewn cyfres o gwestiynau am ymddygiadau yn ymwneud â bwyd yn gofyn ble roedd ymatebwyr yn gwneud eu prif siopa wythnosol; gwelir yr ymatebion yn Ffigur 10. Yn ystod cam cyntaf yr arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr ble roeddent yn siopa cyn y pandemig (cyfnod amser A) ac yn ystod y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud (cyfnod amser B). Yn ystod cyfnod amser A, roedd 72% o bobl yn mynd i archfarchnad fawr i siopa, roedd 14% yn mynd i archfarchnad gadwyn leol (e.e. Tesco metro), ac roedd 8% yn siopa ar-lein ar wefan archfarchnad. Yn ystod cyfnod amser B, roedd cyfran y bobl a oedd yn mynd i archfarchnad fawr i siopa wedi gostwng tua 10 pwynt canran i 61%, roedd cyfran y bobl a oedd yn siopa mewn archfarchnad gadwyn leol yn ddigyfnewid i raddau helaeth (13%) tra bod cyfran y bobl a oedd yn siopa ar-lein ar wefan archfarchnad wedi cynyddu tua 8 pwynt canran i 16%. Hefyd, cafwyd cynnydd bach yn nifer y bobl a oedd yn siopa mewn siopau annibynnol ac yn siopa ar-lein ar wefannau siopau nad oeddent yn archfarchnadoedd neu ddarparwyr bocsys llyisiau. Roedd yr ymatebion a gasglwyd yn ystod cyfnod amser C yn dangos ychydig iawn o newid o'r canrannau a gofnodwyd yng nghyfnod amser B.


Ffigur 10: Dewis siop ar gyfer y prif siopa wythnosol



N= 897. Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, yn ystod wythnos arferol, ble rydych chi'n prynu eich prif eitemau bwyd wythnosol? (Os nad ydych chi'n siopa i chi eich hun ar hyn o bryd, meddyliwch am ble mae'r unigolyn sy'n siopa ar eich rhan yn prynu'ch bwyd wythnosol i chi).

5.2 Roedd cwestiwn cysylltiedig yn gofyn i ymatebwyr am eu hymddygiadau siopa ychwanegol yn ystod yr wythnos; ceir crynodeb o'r ymatebion yn Ffigur 11. Yn ystod cyfnod B, dangosodd y data fod gostyngiad yng nghyfran y bobl a oedd yn defnyddio archfarchnadoedd mawr i wneud siopa ychwanegol yn ystod y cyfyngiadau symud o'i gymharu â chyfnod amser A (49% i 36%), a gostyngiad yn y gyfran a oedd yn defnyddio archfarchnadoedd cadwyn lleol i wneud siopa ychwanegol (o 45% i 37%). Cynyddodd canran y bobl nad oeddent yn gwneud siopa ychwanegol o 7% i 17%. Yn ystod cyfnod amser C, roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn defnyddio archfarchnadoedd mawr i wneud siopa ychwanegol wedi cynyddu 7 pwynt canran i 43%, ac roedd y gyfran a ddywedodd nad ydynt yn gwneud siopa ychwanegol bob wythnos wedi gostwng i 14%. Mae'n werth nodi, rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C, bod cyfran y rhai a oedd yn defnyddio archfarchnadoedd cadwyn lleol wedi gostwng 4 pwynt canran arall i 33%, ac roedd y gyfran a oedd yn gwneud siopa wyneb yn wyneb mewn siopau annibynnol wedi gostwng o 17% i 14%.

Ffigur 11: Dewis siopau ar gyfer siopa wythnosol ychwanegol



N= 860. Sylfaen = Pob ymatebydd ac eithrio'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn gyfrifol am brynu bwyd yn eu cartref. Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, yn ystod wythnos arferol, ble rydych chi'n gwneud eich siopa wythnosol 'ychwanegol'? (dewiswch bob un sy'n berthnasol) (Unwaith eto, os nad ydych chi'n siopa i chi eich hun ar hyn o bryd, meddyliwch am ble mae'r unigolyn sy'n siopa ar eich rhan yn prynu'ch bwyd wythnosol i chi).

5.3 Gofynnwyd i ymatebwyr am eu hymddygiadau bwyta, gan ganolbwyntio'n benodol ar sawl diwrnod mewn wythnos arferol roeddent yn bwyta cig coch (e.e. cig eidion neu gig oen), cig gwyn (e.e. cyw iâr neu borc), a physgod neu fwyd môr (e.e. eog neu orgimwch). Yn ystod cyfnod amser B, roedd pobl yn bwyta cig coch yn llai aml na chyn y pandemig (cyfnod amser A). Hefyd, roedd gwahaniaeth rhwng pa mor aml roedd cig coch yn cael ei fwyta yng nghyfnod amser B a chyfnod amser C, ond roedd y sefyllfa yn wahanol y tro hwn gan fod pobl yn bwyta mwy o gig coch nag yn ystod cyfnod amser B. Yn ystod cyfnod amser C, roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn bwyta cig coch 5-7 diwrnod yr wythnos wedi pasio lefelau cyn y pandemig o un pwynt canran (5%). Roedd y gyfran a oedd yn bwyta cig coch 3-4 diwrnod yr wythnos wedi codi ychydig yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig (o 19% yng nghyfnod amser A i 21% yng nghyfnod C). Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn bwyta cig coch bob dydd yng nghyfnod amser C yn fwy nag yng nghyfnod amser B, ond nid oedd yn fwy na'r lefelau cyn y pandemig.

5.4 Hefyd, roedd yna ostyngiad o safbwynt pa mor aml roedd pobl yn bwyta cig gwyn yn ystod cyfnod B o'i gymharu â'r lefelau cyn y pandemig (cyfnod amser A). Ym mis

Tachwedd 2020 (cyfnod amser C) roedd cig gwyn hefyd yn dal i gael ei fwyta yn llai aml nag yr oedd yn ystod y cyfnod cyn argyfwng y coronafeirws. Roedd lefelau bwyta pysgod a bwyd môr yn gymharol debyg ym mhob un o'r tri chyfnod amser. Roedd y rheini a oedd yn nodi eu bod yn bwyta pysgod a bwyd môr lai nag unwaith yr wythnos ar ei uchaf yng nghyfnod amser C (32% yng nghyfnod amser A, 30% yng nghyfnod amser B a 35% yng nghyfnod amser C).


- 5.5 Er mwyn canfod a oedd unrhyw newid o safbwynt bwyd a oedd yn cael ei wastraffu, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa ganran o'r tatws, y bara a'r llaeth⁷ a brynwyd ganddynt ddiwethaf na chawsant eu defnyddio ac y bu'n rhaid eu taflu (mewn bin compost, bin cyffredin, bag gwastraff bwyd, neu i lawr y sinc). Gan fod y cwestiynau am wastraff bwyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr ystyried faint o eitemau roeddent wedi'u taflu'r tro diwethaf iddynt eu prynu, yn hytrach na meddwl am faint y maent yn ei daflu fel arfer pan fyddant yn prynu'r eitemau hyn, ni ofynnwyd i ymatebwyr ddarparu llinell sylfaen ôl-weithredol cyn y coronafeirws. Felly, nid oedd modd gwybod a oedd unrhyw wahaniaeth mewn gwastraff rhwng cyfnod amser A a B. Mae'r canfyddiadau hyn yn ymwneud â newidiadau rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C yn unig.
- 5.6 Nid oedd unrhyw newid sylweddol yng nghyfran y bobl a nododd nad oedd unrhyw wastraff tatws (o 37% yng nghyfnod amser B i 38% yng nghyfnod amser C). Roedd rhywfaint o symudiad cyffredinol ar i lawr yn y symiau yr adroddwyd eu bod yn cael eu gwastraffu, er enghraifft, roedd gostyngiad yng nghyfran yr ymatebwyr a wastraffodd 21-40% (o 8% yng nghyfnod amser B i 5% yng nghyfnod amser C) a chynnydd yn y rhai a wastraffodd 1-20% (44% yng nghyfnod amser B i 47% yng nghyfnod amser C).
- 5.7 Roedd cyfran y bobl a ddywedodd nad oeddent yn gwastraffu eitem fwyd benodol wedi gostwng o 50% yng nghyfnod amser B i 47% yng nghyfnod amser C ar gyfer bara, ac o 77% yng nghyfnod amser B i 73% yng nghyfnod amser C ar gyfer llaeth, felly mae'n ymddangos bod lefelau gwastraff yn dechrau cynyddu.

⁷ Dewiswyd yr eitemau bwyd hyn oherwydd eu bod yn dri o'r bwydydd sy'n cael eu taflu amlaf yn y DU – [WRAP \(2021\) – Food surplus and waste in the UK – key facts](#) [Cyrchwyd 21.12.2021]

6. Canfyddiadau: Ymddygiadau siopa

6.1 Roedd yr arolwg yn cynnwys ystod o gwestiynau yn archwilio ymddygiadau prynu defnyddwyr. Roedd y cwestiwn cyntaf yn y categori hwn yn gofyn am wariant yr wythnos ar fwyd mewn bwytai, ffreuturau a siopau tecawê (gweler Ffigur 12 isod). Yn sgil cyflwyno'r cyfyngiadau symud (cyfnod amser B) cafwyd gostyngiad yn y categori gwariant hwn o'i gymharu â chyfnod amser A wrth i leoliadau arlwyyo gau. Yn yr un modd, bu cynnydd mewn gwariant yn y categori hwn yng nghyfnod amser C pan oedd llai o gyfyngiadau ar waith y tu allan i'r cyfnod atal byr. Fodd bynnag, nid oedd gwariant wedi dychwelyd i lefelau cyn y coronafeirws eto. Cyn y pandemig, roedd 70% o ymatebwyr wedi gwario o leiaf rywffaint o arian ar fwyd mewn lleoliadau arlwyyo. Roedd y gyfran hon wedi gostwng i 41% yn ystod y cyfyngiadau symud (cyfnod amser B) ac roedd wedi cynyddu i 50% ym mis Tachwedd (cyfnod amser C), sy'n parhau i fod tua 20 pwynt canran yn is na'r llinell sylfaen cyn y coronafeirws (cyfnod amser A).


Ffigur 12: Gwariant ar fwyd mewn bwytai, ffreuturau a siopau tecawê



N= 897 (Pob cyfnod amser). Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, tua faint o arian ydych chi'n ei wario bob wythnos mewn bwytai, ffreuturau a siopau tecawê?

- 6.2 Hefyd, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi prynu eitemau mawr yn ystod y tri mis blaenorol. Canolbwyntiwyd yn benodol ar eitemau mawr o ddodrefn; ffonau symudol neu lechi; teledu, gliniaduron neu gyfrifiaduron personol; a chyfarpar mawr (e.e. peiriant golchi). Dangosir yr ymatebion yn Ffigur 13. Cafwyd gostyngiad o 1-2 bwynt canran ar gyfer y rhan fwyaf o gategoriâu o eitemau a brynwyd yng nghyfnod amser B o'i gymharu â chyfnod amser A, ac eithrio 'teledu, gliniadur neu gyfrifiaduron personol' lle nad oedd unrhyw newid.
- 6.3 Rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C, cafwyd cynnydd yng nghanran pob eitem, ac roedd newidiadau yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi prynu ffonau symudol neu lechi, a gododd o 9% i 12%. Hefyd, cynyddodd nifer yr ymatebwyr a oedd wedi prynu teclyn mawr o 4% i 9%. Roedd lleihad hefyd o 79% i 75% yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi prynu unrhyw un o'r eitemau hyn. Yn ystod cyfnod amser C, roedd nifer yr eitemau a brynwyd ym mhob un o'r categorïau wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig neu wedi rhagori arnynt.
- 6.4 Gofynnwyd i ymatebwyr yng nghyfnod amser C a oeddent wedi prynu car neu feic yn ystod y tri mis blaenorol; roedd 4% wedi prynu car, ac roedd 1% wedi prynu beic. Dyma'r tro cyntaf i'r data hwn gael ei gasglu felly mae hyn yn llinell sylfaen.


Ffigur 13: Prynu eitemau mawr neu ddrud



N= 897. Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Yn ystod y tri mis diwethaf (Awst - Hydref 2020), ydych chi wedi prynu unrhyw un o'r canlynol?

6.5 Yn ogystal â chael eu holi am brynu eitemau mawr, gofynnwyd i ymatebwyr faint o arian y maen nhw'n ei wario arnynt eu hunain fel arfer bob mis mewn pedwar categori: dillad ac esgidiau; anifeiliaid anwes a bwyd anifeiliaid anwes; cynhyrchion harddwch a thwtio; a chontractau ffôn, rhyngwrwyd a theledu. Fel y gwelir yn Ffigur 14, roedd gwariant ar ddillad ac esgidiau wedi gostwng rhwng cyfnod amser A a chyfnod amser B; roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn gwario £0 ar yr eitemau hyn wedi cynyddu o 20% i 54%, a chyfran yr ymatebwyr a oedd yn gwario £1-50 wedi gostwng o 65% i 39%. Erbyn cyfnod amser C, roedd gwariant wedi dechrau cynyddu unwaith eto, ac roedd cyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi gwario £0 ar ddillad ac esgidiau wedi gostwng i 45%, a'r gyfran a oedd wedi gwario £1-50 wedi cynyddu 10 pwynt canran i 49%.

Ffigur 14: Gwariant bob mis ar ddillad ac esgidiau i chi eich hun



N= 897 (Pob cyfnod amser) Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, faint o arian ydych chi'n ei wario fel arfer bob mis ar ddillad ac esgidiau i chi eich hun?

6.6 Yn gyffredinol, nid oedd newid sylweddol yn y swm a wariwyd ar anifeiliaid anwes. Rhwng cyfnodau amser A a B roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn gwario £1-10, £21-30 a mwy na £30 wedi cynyddu o 1 pwynt canran, ac roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn gwario £11-20 wedi lleihau o 17% i 14%. Yng nghyfnod

amser C, dychwelodd gwariant i lefelau cyn y pandemig yn gyffredinol, fodd bynnag, syrthiodd y gyfran a oedd yn gwario mwy na £30 i lefel is nag yng nghyfnod amser A. Roedd y cynnydd yn y rheini sy'n gwario £21-30 yng nghyfnod amser B hefyd wedi'i gynnal yng nghyfnod amser C.


- 6.7 Roedd llai o newid hefyd o safbwynt prynu cynhyrchion iechyd, harddwch a thwtio. Serch hynny, cafwyd newid yn y categori hwn yng nghyfnod amser B o'i gymharu â chyfnod amser A, ac roedd cyfran y bobl a ddywedodd eu bod yn gwario £0-50 yn y categori hwn wedi cynyddu o 90% i 94%, a'r nifer yn gwario £51-100 wedi gostwng o 7% i 6%.
- 6.8 Doedd dim llawer o newid mewn gwariant ar gontractau ffôn, rhyngrwyd a theledu. Digwyddodd y newidiadau mwyaf rhwng cyfnodau amser B ac C gyda'r rhai a oedd yn gwario £1-30 yn lleihau o 34% i 32%. Cynyddodd y gyfran a oedd yn gwario mwy na £60 o 23% i 25%. Mae hyn yn awgrymu tuedd bychan tuag at wario ar yr eitemau hyn yng nghyfnod amser C.

7. Canfyddiadau: Ymddygiadau, pryderon a bwriadau yn ymwneud ag ynni

- 7.1 Gofynnwyd i ymatebwyr pa mor aml roeddent yn diffodd goleuadau a theclynnau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, yn hytrach na'u gadael yn y modd segur; y dewisiadau ymateb oedd 'byth', 'weithiau', 'tua hanner yr amser', 'y rhan fwyaf o'r amser', a 'bob amser'. Yr ymateb canolrif oedd 'y rhan fwyaf o'r amser' ym mhob un o'r tri chyfnod amser. Dywedodd ymatebwyr eu bod wedi diffodd eu goleuadau a'u teclynnau yn amlach yng nghyfnod amser B. Roedd cyfran yr ymatebwyr nad oeddent byth yn diffodd eu goleuadau na'u teclynnau wedi gostwng o 8% yng nghyfnod amser A i 6% yng nghyfnod amser B. Cynyddodd y gyfran a ddewisodd yr ateb 'bob amser' o 28% i 31%. Fodd bynnag, roedd gostyngiad yng nghyfran y bobl a ddywedodd yng nghyfnod amser C eu bod yn diffodd y goleuadau bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser (o 64% i 61%).
- 7.2 Cyflwynwyd cyfres newydd o gwestiynau yn ystod ail don yr arolwg, yng nghyfnod amser C. Felly, gall y canfyddiadau a drafodir yn y paragraff hwn weithredu fel llinell sylfaen. Roedd y cwestiynau hyn yn ceisio mesur defnydd ynni bob dydd cyffredinol yn y cartref. Dylid nodi bod y cyfnod hwn o gasglu data wedi digwydd ym mis Tachwedd ac mae'n debygol y bydd tuedd dymhorol yn yr ymatebion. Yn gyntaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr am faint o oriau y mae goleuadau yn cael eu gadael ymlaen yn y cartref. Y gwerth ymateb cymedrig oedd 7 awr 29 munud; dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (59%) fod eu goleuadau ymlaen am tua phump i wyth awr y dydd. Roedd y cwestiwn nesaf yn gofyn am faint o oriau'r dydd roedd y gwres ymlaen yn y cartref. Y gwerth ymateb cymedrig oedd 5 awr 29 munud, a'r canolrif oedd pedair awr. Dywedodd tri ar ddeg y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio eu gwres o gwbl, ond roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (71%) yn defnyddio eu gwres am rhwng un ac wyth awr y dydd. Yn olaf, gofynnwyd i ymatebwyr am y tymheredd a ddewisir ganddynt i wresogi eu cartrefi ar ddiwrnodau oer. Roedd deg ar hugain y cant o bobl yn cynhesu eu cartrefi ar dymheredd o 18-19°C, a 31% yn dewis 20-21°C. Ar yr eithafion, dywedodd 4% fod eu cartrefi wedi'u gwresogi i dymheredd o lai na 14°C tra bod 7% wedi dewis gwresogi eu cartrefi i dymheredd dros 21°C.

7.3 Yn ystod cyfnod amser B a chyfnod amser C, gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau roeddent yn poeni am eu gallu i dalu eu biliau ynni. Fel y gwelir yn Ffigur 15, roedd y pryderon hyn wedi cynyddu rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn poeni o gwbl wedi gostwng o 53% i 43%. Yn y cyfamser, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn poeni 'ychydig' (o 23% i 28%), 'i ryw raddau' (o 10% i 13%) a 'llawer' (o 4% i 7%). Gellir priodoli'r gwahaniaeth hwn, yn rhannol o leiaf, i'r newid yn y tymor, a'r ffaith y byddai'r rhan fwyaf o aelwydydd yn rhagweld cynnydd yn eu biliau ynni wrth i'r gaeaf agosáu.

Ffigur 15: Lefel pryderon am allu talu am filiau ynni



N= 897. Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, i ba raddau ydych chi'n poeni am allu talu am filiau ynni?

7.4 Gofynnwyd i ymatebwyr a ydynt yn defnyddio mathau amrywiol o dechnoleg sy'n gysylltiedig â gwella effeithlonrwydd ynni neu ddefnyddio llai o adnoddau, neu a ydynt yn bwriadu eu defnyddio yn y dyfodol:

- Gosod deunydd inswleiddio yn yr atig neu'r muriau
- Gosod mesurydd clyfar
- Gosod system ynni adnewyddadwy e.e. paneli solar neu bwmp gwres

- Prynu cerbyd trydan neu hybrid
- Gosod mesurydd dŵr

Dyma'r dewisiadau ymateb ar gyfer yr holl gwestiynau hyn: 'Rwyf eisoes wedi gwneud hyn yn ystod y 3 mis diwethaf', 'Rwyf eisoes wedi gwneud hyn dros 3 mis yn ôl', 'Rydw i wrthi'n gwneud hyn', 'Rwy'n meddwl am wneud hyn', 'Dydw i ddim eisiau gwneud hyn' a 'Dydw i ddim wedi meddwl am wneud hyn'. Rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C, roedd cyfran yr ymatebwyr a ddewisodd yr ateb 'Dydw i ddim wedi meddwl am wneud hyn' wedi gostwng ar gyfer y pum cwestiwn, gan amlygu cynnydd cyffredinol yn nifer y bobl sydd o leiaf yn ystyried defnyddio'r mathau hyn o dechnoleg lleihau carbon.

- 7.5 Gosod deunydd insiwleiddio yn yr atig neu'r muriau oedd y mesur effeithlonrwydd ynni mwyaf poblogaidd, ac roedd 57% o'r ymatebwyr yn ystod cyfnod amser C yn nodi eu bod wedi gwneud hyn naill ai yn y tri mis blaenorol neu fwy na thri mis yn ôl, sef cynnydd o 8 pwynt canran o'i gymharu â chyfnod amser B (49%). Roedd mwy o bobl wedi ystyried gosod deunydd inswleiddio yn ystod cyfnod amser C na chyfnod amser B (yn ystod cyfnod amser C, dywedodd 28% o'r ymatebwyr nad oeddent wedi ystyried gwneud hyn, o'i gymharu â 36% yng nghyfnod B). Nid oedd llawer o ymatebwyr yn gwrthod y syniad o osod deunydd insiwleiddio, a dim ond 8% a ddywedodd nad oeddent eisiau mabwysiadu'r mesur hwn.
- 7.6 O'r pum technoleg yr holwyd amdanynt yn yr arolwg, yr opsiwn mesuryddion clyfar oedd yr opsiwn a oedd wedi'i ystyried gan y gyfran uchaf o ymatebwyr. Dim ond 16% o'r ymatebwyr yn ystod cyfnod amser C nad oeddent wedi ystyried gwneud hyn (o'i gymharu â 22% yn ystod cyfnod amser B). Roedd nifer gymharol uchel o ymatebwyr (43%) eisoes wedi gosod mesurydd yn ystod y tri mis blaenorol neu fwy na thri mis yn ôl yn ystod cyfnod amser C (cynnydd o 5 pwynt canran o'i gymharu â chyfnod amser B), ac roedd 3% wrthi'n gosod mesurydd. Roedd y gyfradd wrthod yn ddigyfnewid i raddau helaeth yn ystod y cyfnodau amser, gyda 25% o ymatebwyr yn dewis yr ateb 'Dydw i ddim eisiau gwneud hyn/ni fyddwn yn gwneud hyn' yn ystod y ddau gyfnod amser.
- 7.7 Er bod cyfran uchel o ymatebwyr wedi ystyried mabwysiadu technoleg mesuryddion clyfar, nid oedd yr un peth yn wir am systemau ynni adnewyddadwy (e.e. paneli


solar neu bympiau gwres). Dywedodd 48% o ymatebwyr nad oeddent wedi ystyried mabwysiadu'r mesur hwn yn ystod cyfnod amser C (52% yng nghyfnod B). Nid oedd llawer o ymatebwyr wedi mabwysiadu'r dull hwn yng nghyfnod amser C, gyda dim ond 9% yn gosod system ynni adnewyddadwy yn y tri mis blaenorol neu fwy na thri mis yn ôl (cynnydd bach o'i gymharu â'r ganran o 6% yn ystod cyfnod amser B), a dim ond 0.3% a oedd wrthi'n gwneud hyn yn ystod cyfnod amser C. Er bod 15% o'r ymatebwyr yn ystyried gwneud hyn yn ystod cyfnod amser C, roedd 27% wedi penderfynu nad oeddent eisiau gwneud hyn neu na fyddant yn gwneud hyn, sef cynnydd o 1% o'i gymharu â chyfnod amser B. Roedd y canolrif wedi newid o 4 (rwy'n meddwl am wneud hyn) i 2 (rwyf eisoes wedi gwneud hyn dros dri mis yn ôl) rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C.

- 7.8 Fel sy'n wir am systemau ynni adnewyddadwy, roedd nifer yr ymatebwyr sy'n defnyddio cerbydau trydan neu hybrid yn isel, gyda dim ond 4% o ymatebwyr wedi prynu cerbyd trydan yn y tri mis blaenorol neu fwy na thri mis yn ôl; roedd hyn yn gynnydd o 2 bwynt canran ers cyfnod amser B. Roedd cyfran yr ymatebwyr nad oeddent wedi meddwl am brynu cerbyd trydan neu hybrid wedi gostwng o 50% yn ystod cyfnod amser B i 43% yn ystod cyfnod amser C. Er bod cynnydd yn y gyfran a oedd wedi penderfynu nad oeddent am wneud hyn neu na fyddant yn gwneud hyn (o 27% i 29%), roedd cynnydd mwy yng nghyfran y bobl a oedd yn ystyried gwneud hyn (20% i 24%).
- 7.9 Roedd y cwestiwn olaf yn y set hon yn ymwneud â mesuryddion dŵr, ac roedd ymwybyddiaeth a'r defnydd ohonynt yn uchel. Dim ond 27% o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi ystyried gwneud hyn yn ystod cyfnod amser C (gostyngiad o 2 bwynt canran o'i gymharu â'r ymateb yn ystod cyfnod amser B), ac roedd 38% eisoes wedi gwneud hyn yn ystod y tri mis blaenorol neu fwy na thri mis yn ôl (cynnydd bach o'i gymharu â'r ganran o 37% yng nghyfnod amser B). Roedd cynnydd bach yng nghyfran yr ymatebwyr a ddewisodd 'Dydw i ddim eisiau gwneud hyn/ni fyddaf yn gwneud hyn' o 26% i 29% rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C.

8. Canfyddiadau: Defnyddio dŵr

- 8.1 Ar gyfer dwy don y broses casglu data, gofynnwyd i ymatebwyr sawl gwaith yr wythnos roeddent yn cael bath a chawod, ac am faint o amser roeddent yn aros yn y gawod, er mwyn deall ymddygiadau yn ymwneud â defnyddio dŵr. Roedd y data a gasglwyd yn ystod cyfnod amser B wedi dangos bod sawl gwaith yr wythnos roedd pobl yn cael bath wedi gostwng rhwng cyfnod amser A a chyfnod amser B. Y cymedr yn ystod cyfnod amser A oedd 1.5, ac roedd yn 1.2 yn ystod cyfnod amser B. Arhosodd y cymedr yn 1.2 yng nghyfnod amser C. Mae'r data yn ymwneud â sawl gwaith yr wythnos roedd pobl yn cael cawod wedi'i ddangos yn Ffigur 16.
- 8.2 Adlewyrchir y duedd hon yn nifer y cawodydd hefyd. Yn ystod cyfnod amser B, cafwyd gostyngiad yn nifer y cawodydd roedd pobl yn eu cael bob wythnos o'i gymharu â chyfnod amser A; y cymedr yn ystod cyfnod amser A oedd 4.63, ac roedd wedi gostwng i 4.57 yn ystod cyfnod amser B. Yn yr un modd ag ymddygiadau pobl o safbwynt cael bath, nid oedd unrhyw newid yng nghymedr nifer y cawodydd bob wythnos rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C, felly roedd y gostyngiad yn nifer y cawodydd wedi parhau ar ôl y cyfyngiadau symud. Yn ystod cyfnod amser B, newid bychan iawn oedd o ran faint o amser roedd pobl yn aros yn y gawod (y cymedr yn ystod cyfnod amser A oedd 8.2 munud, a'r cymedr yn ystod cyfnod amser B oedd 8.3 munud). Yn ystod cyfnod amser C, y cymedr oedd 8.1 munud.

Ffigur 16: Sawl gwaith yr wythnos mae pobl yn cael cawod




Cyfnod Amser A N = 895 Cyfnod Amser B N = 896 Cyfnod Amser C N= 897. Sylfaen = Pob ymatebydd.
 Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, sawl gwaith yr wythnos ydych chi'n cael cawod fel arfer?

9. Canfyddiadau: Hamdden

- 9.1 Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau yn archwilio am faint o amser roedd cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden amrywiol. Wrth ystyried newidiadau rhwng camau, dylid cofio bod rhai gweithgareddau yn dibynnu ar y tywydd, sy'n golygu bod effeithiau tymhorol yn gallu bod yn berthnasol gan ddrysu unrhyw effaith sy'n deillio o'r pandemig.
- 9.2 Roedd y cwestiwn cyntaf yn y categori hwn yn ymwneud â nifer yr oriau bob wythnos y mae pobl yn garddio. Gwelwyd cynnydd sylweddol rhwng cyfnod amser A a chyfnod amser B. Ni chymharwyd y ffigur hwn â chyfnod amser C gan ei bod yn debygol bod newidiadau tymhorol wedi cael effaith (roedd cyfnod amser C ym mis Tachwedd 2020).
- 9.3 Roedd ymatebwyr wedi treulio llai o amser yn ymweld â mannau awyr agored (e.e. mannau gwyrdd fel parc neu goetir, neu fannau glas fel llyn, afon neu'r môr) yn ystod cyfnod amser B o'i gymharu â chyfnod amser A. Roedd cyfran yr ymatebwyr a nododd nad oeddent yn treulio unrhyw amser yn ymgymryd â'r gweithgareddau hyn wedi dyblu bron (o 20% yn ystod cyfnod amser A i 37% yn ystod cyfnod amser B), ac roedd pobl yn treulio llai o amser yn yr awyr agored ym mhob categori ymateb, fel y gwelir yn Ffigur 17. Gwelwyd cynnydd bach yn ystod cyfnod amser C, gyda llai o bobl yn nodi nad oeddent yn treulio unrhyw amser yn yr awyr agored (32% yn ystod cyfnod amser C o'i gymharu â 37% yn ystod cyfnod amser B) a chynnydd mewn rhai o'r categorïau ymateb eraill. Gellid disgwyl i bobl dreulio llai o amser yn yr awyr agored ym mis Tachwedd na mis Mehefin, ac y byddai'r effaith dymhorol hon yn cyfyngu ar unrhyw adferiad posibl yn sgil llacio'r cyfyngiadau symud.


Ffigur 17: Oriau'r wythnos yn ymweld â manau awyr agored lleol



N= 897 (Pob cyfnod amser). Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, am tua sawl awr yr wythnos ydych chi'n gwneud y canlynol: Ymweld â manau awyr agored lleol (e.e. manau gwyrdd – parc, coetir; manau glas – llyn afon, y môr)

- 9.4 Roedd pobl yn treulio llai o amser yn gwneud ymarfer corff a chwaraeon yn ystod cyfnod amser B o'i gymharu â chyfnod amser A. Roedd cyfran y bobl a nododd nad oeddent yn gwneud unrhyw ymarfer corff o gwbl wedi cynyddu o 22% yng nghyfnod amser A i 30% yng nghyfnod amser B. Er gwaethaf hyn, nid oedd y canrannau ar gyfer pobl a oedd eisoes yn gwneud mwy na phum awr yr wythnos o ymarfer corff wedi newid. Mae hyn yn awgrymu bod pobl sy'n gwneud ymarfer corff fel rhan arferol o'u bywydau wedi llwyddo i gynnal eu lefelau gweithgarwch yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Gwelwyd ychydig o gynnydd yn ystod cyfnod amser C, wrth i gyfran y bobl a nododd nad oeddent yn gwneud unrhyw ymarfer corff ostwng i 27%. Fodd bynnag, nid oedd y ffigur hwn wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y cyfyngiadau symud yng nghyfnod amser A.
- 9.5 Gan fod cyfyngiadau symud ar waith a siopau'n gwerthu eitemau nad oeddent yn rhai hanfodol ar gau, nid oes syndod bod cyfran y bobl nad oeddent yn treulio unrhyw amser yn siopa am eitemau nad ydynt yn eitemau bwyd wedi dyblu yng nghyfnod amser B o'i gymharu â chyfnod amser A (o 13% i 28%). Er bod nifer yr oriau siopa wedi cynyddu yn ystod cyfnod amser C, roedd y lefelau siopa yn is o lawer yn ystod cyfnod amser A, fel y gwelir yn Ffigur 18.

Ffigur 18: Oriau'r wythnos yn siopa am eitemau nad ydynt yn eitemau bwyd, gan gynnwys siopa ar-lein



N= 897 (Pob cyfnod amser). Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, am tua sawl yr wythnos ydych chi'n gwneud y canlynol: Siopa ar gyfer eitemau nad ydynt yn eitemau bwyd, gan gynnwys siopa ar-lein (e.e. dillad, teclynnau)

- 9.6 O safbwynt gweithgareddau hamdden dan do, roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am yr amser y mae ymatebwyr yn ei dreulio ar hobïau creadigol megis cerddoriaeth, celf a gwnïo, ac ar gyfer coginio bwydydd ffres yn benodol. Roedd yr ymatebwyr yn treulio ychydig mwy o amser ar hobïau creadigol yn ystod cyfnod amser B. Roedd y bobl a oedd yn treulio mwy nag un awr ar y gweithgareddau hyn wedi cynyddu o 37% yn ystod cyfnod amser A i 38% yn ystod cyfnod amser B. Cynyddodd y ffigur hwn ychydig bach i 39% yn ystod cyfnod amser C.
- 9.7 Cafwyd cynnydd yn yr amser yn coginio bwyd ffres yn ystod cyfnod amser B o gymharu â chyn y pandemig yn ystod cyfnod amser A, wrth i gyfran y bobl a oedd yn treulio mwy na thair awr ar y gweithgaredd hwn gynyddu'n sylweddol (o 49% i 54%). Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn treulio mwy na thair awr yr wythnos yn coginio wedi lleihau ychydig rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C i 51%, ond roedd pobl yn parhau i dreulio mwy o amser yn coginio bwyd ffres o'i gymharu â chyfnod amser A.

10. Canfyddiadau: Ymddygiadau o blaid yr amgylchedd

10.1 Gofynnwyd i ymatebwyr am chwe arfer sy'n cael effaith ar yr amgylchedd.


Gofynnwyd iddynt sawl gwaith y mis y maent yn gwneud y canlynol:

- bwyta bwyd sy'n cael ei dyfu'n lleol, neu fwyd tymhorol
- prynu cynhyrchion â llai o ddeunydd pacio
- prynu eitemau ail-law (gan gynnwys o lefydd fel eBay, arwerthiannau cist ceir, a siopau elusen)
- benthyg neu rentu eitemau (gan gynnwys llyfrau llyfrgell, offer, teganau etc)
- defnyddio eitem at ddiben gwahanol, yn hytrach na'i thafllu
- defnydd eitem untro er bod dewis amgen aml dro ar gael (yn wahanol i'r pum arfer arall sy'n ymddygiadau o blaid yr amgylchedd, mae hwn yn arfer amgylcheddol negyddol)

10.2 Cofnodwyd ymatebion ar raddfa saith pwynt, yn amrywio o 'dim o gwbl' i 'unwaith yr wythnos' i 'o leiaf unwaith y dydd'.

10.3 Ym mhob achos, cafwyd cynnydd sylweddol mewn ymatebion 'dim o gwbl' rhwng cyfnod amser A a chyfnod amser B, ac yna gostyngiad yn ystod cyfnod amser C. Gwelir hyn yn Ffigur 19, sy'n dangos sawl gwaith y mis roedd ymatebwyr yn bwyta bwyd a gafodd ei dyfu'n lleol neu fwyd tymhorol. Cyn y pandemig yn ystod cyfnod amser A, roedd 25% o ymatebwyr wedi dewis 'dim o gwbl', ac roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 30% yn ystod cyfnod amser B. Yn ystod cyfnod amser C, roedd cyfran yr ymatebwyr a nododd nad oeddent yn bwyta bwyd wedi'i dyfu'n lleol neu fwyd tymhorol wedi gostwng i 24%, sy'n is na'r ganran yn ystod cyfnod amser A. Mae hyn yn awgrymu gwelliant cyffredinol bychan yn nifer yr ymatebwyr sy'n bwyta bwyd wedi'i dyfu'n lleol neu fwyd tymhorol.


Ffigur 19: Lefelau bwyta bwyd sy'n cael ei dyfu'n lleol neu fwyd tymhorol bob mis



N= 897 (Pob cyfnod amser). Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, tua sawl gwaith y mis ydych chi'n bwyta bwyd sy'n cael ei dyfu'n lleol, neu fwyd tymhorol?

10.4 Gellir gweld patrwm tebyg mewn perthynas ag aildddefnyddio eitem yn lle ei daflu (gweler Ffigur 20). Cyn y pandemig yn ystod cyfnod amser A, dywedodd 36% o ymatebwyr nad oeddent byth yn addasu eitem at ddiben gwahanol. Cynyddodd y gyfran hon i 42% yn ystod y cyfyngiadau symud (cyfnod amser B). Yna, yn ystod cyfnod amser C, gostyngodd y gyfran i 29% (h.y. yn is na'r lefel cyn y pandemig yn ystod cyfnod amser A), ac roedd cyfran y rhai a ddewisodd yr ateb 'hyd at unwaith y mis' wedi cynyddu o 28% i 36%. Mae hyn yn awgrymu gwelliant cyffredinol yn yr arfer penodol hwn sydd o blaid yr amgylchedd.

Ffigur 20: Ymddygiadau misol o ran addasu eitem at ddiben gwahanol yn hytrach na'i thafu




N= 897 (Pob cyfnod amser). Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, tua sawl gwaith y mis ydych chi'n addasu eitem at ddiben gwahanol, yn hytrach na'i thafu?

- 10.5 Gwelir yr un patrwm yn y data yn ymwneud â phrynu cynhyrchion â llai o ddeunydd pacio – h.y. cynnydd mewn ymatebion ‘dim o gwbl’ rhwng cyfnod amser A a chyfnod amser B, a gostyngiad cyfatebol rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C. Fodd bynnag, er bod y duedd yn debyg ar gyfer prynu eitemau ail-law a benthyg neu rentu eitemau, yn y ddau achos hyn, nid yw'r lefel yn ystod cyfnod amser C wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig (cyfnod amser A) neu'n uwch. Gellir priodolir hyn i gyfyngiadau parhaus a oedd ar waith o hyd yn ystod cyfnod amser C a oedd yn cyfyngu ar gyfleoedd i fenthyg neu rentu eitemau (e.e. llyfrgelloedd cyhoeddus ar gau o hyd) neu i brynu eitemau ail-law (e.e. dim arwerthiannau cist ceir).
- 10.6 Mae'r gwrthwyneb yn wir ar gyfer y categori olaf o ymddygiadau sy'n cael ei ystyried: defnyddio eitemau untro er bod dewis amgen aml dro ar gael (gweler Ffigur 21). Cyn y pandemig (cyfnod amser A), dewisodd 38% o ymatebwyr yr ateb ‘dim o gwbl’ pan ofynnwyd iddynt sawl gwaith y mis roeddent yn defnyddio eitem untro. Yn ystod y cyfyngiadau symud (cyfnod amser B), cynyddodd y ganran hon i 55%, sy'n

welliant mawr i'w groesawu gan ei fod yn lleihau gwastraff trwy ddefnyddio llai o eitemau untro. Fodd bynnag, erbyn cyfnod amser C, roedd cyfran yr ymatebwyr a ddewisodd yr ateb 'dim o gwbl' wedi gostwng i 46%. Roedd llai o ymatebwyr yn defnyddio eitem aml dro (h.y. ddim yn eitem untro) yn ystod cyfnod amser C o'i gymharu â chyfnod amser B. Nid yw hyn yn dda i'r amgylchedd gan y byddai'n arwain at gynydd mewn lefelau gwastraff.

Ffigur 21: Defnydd misol o eitemau untro er bod dewis amgen aml dro ar gael



N= 897 (Pob cyfnod amser). Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = Ar hyn o bryd, tua sawl gwaith y mis ydych chi'n defnyddio eitem untro er bod dewis amgen aml dro ar gael e.e. cwpanau coffi, poteli dŵr, cynhyrchion misglif, bagiau siopa?


11. Canfyddiadau: Agweddau tuag at ddulliau polisi

11.1 Gofynnodd yr arolwg ddau gwestiwn i bwysu a mesur agweddau at y llywodraeth yn rhoi blaenoriaeth i'r newid yn yr hinsawdd yn ystod y cyfnod o adferiad economaidd yn dilyn y pandemig, neu'n rhoi blaenoriaeth i adferiad economaidd hyd yn oed os yw hynny'n golygu gwneud penderfyniadau sy'n ddrwg i'r amgylchedd. Roedd modd dewis ymatebion ar raddfa saith pwynt yn amrywio o 'anghytuno'n gryf' (1) i 'niwtral' (4) i 'cytuno'n gryf' (7). Gofynnodd y cwestiwn cyntaf a yw'n bwysig bod camau gweithredu'r llywodraeth yn rhoi blaenoriaeth i'r newid yn yr hinsawdd yn ystod yr adferiad economaidd.

- Yn ystod cyfnod amser B, roedd 48% o ymatebwyr yn cytuno â hyn, roedd 32% yn niwtral ac roedd 20% yn anghytuno.
- Yn ystod cyfnod amser C, roedd y canrannau hyn wedi newid ychydig: roedd 47% yn cytuno, 31% yn niwtral, a 22% yn anghytuno, sy'n awgrymu bod lefel y gefnogaeth wedi gostwng.

11.2 Roedd yr ail gwestiwn yn gofyn a ddylai'r llywodraeth ganolbwyntio ar helpu'r economi i adfer hyd yn oed os yw hynny'n golygu cymryd rhai camau sy'n ddrwg i'r amgylchedd. Mae Ffigur 22 yn dangos yr ymatebion. Yn ystod cyfnod amser B, roedd 39% o ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn, ac roedd 35% yn cytuno. Erbyn cyfnod amser C, roedd y gyfran a oedd yn anghytuno wedi gostwng ychydig i 37%, tra bod y gyfran a oedd yn cytuno wedi cynyddu i 39%. Mae cyfeiriad y newidiadau canrannol yn awgrymu bod rhoi blaenoriaeth i'r newid yn yr hinsawdd yn ystod adferiad economaidd ychydig yn llai pwysig nag y bu.

Ffigur 22: Lefel y cytundeb y dylai'r llywodraeth roi blaenoriaeth i adferiad economaidd, hyd yn oed os yw'n golygu gwneud penderfyniadau sy'n ddrwg i'r amgylchedd



N= 894 (Y ddau gyfnod amser). Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r llywodraeth ganolbwyntio ar adferiad economaidd, hyd yn oed os yw'n golygu cymryd rhai camau sy'n ddrwg i'r amgylchedd?

12. Canfyddiadau: Llesiant

- 12.1 Fe gafodd llesiant goddrychol ymatebwyr ei fesur trwy ddefnyddio'r pedwar cwestiwn llesiant personol (ONS4) sydd wedi'u datblygu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhan o'r rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol⁸. Mae'r cwestiynau hyn yn defnyddio sgoriau rhifiadol rhwng 0 a 10 i fesur boddhad â bywyd, i ba raddau y mae bywyd yn teimlo'n werth chweil, hapusrwydd a gorbryder. Atebodd cyfranogwyr y cwestiynau hyn yn ystod cyfnod amser B a chyfnod amser C ond ni ofynnwyd iddynt ateb y cwestiynau hyn yn ôl-weithredol ar gyfer cyfnod amser A (cyn y pandemig).
- 12.2 Roedd yn ymddangos bod boddhad cyffredinol â bywyd wedi cynyddu ychydig rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C. Nododd 49% o ymatebwyr fod ganddynt lefelau boddhad uchel neu uchel iawn⁹ yn ystod cyfnod amser C, o'i gymharu â 46% yng nghyfnod amser B. Hefyd, cafwyd cynnydd yn y ganran a oedd yn teimlo bod bywyd yn werth chweil, ac roedd 54% o ymatebwyr wedi dewis y categori uchel neu uchel iawn yn ystod cyfnod amser C o'i gymharu â 50% yn ystod cyfnod amser B.
- 12.3 Mewn cyferbyniad, cafwyd gostyngiad mewn hapusrwydd rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C, wrth i 51% o ymatebwyr ddewis y categori uchel neu uchel iawn yn ystod cyfnod amser C o'i gymharu â 54% yn ystod cyfnod amser B. Yn ogystal, cafwyd cynnydd mewn lefelau gorbryder¹⁰ wrth i ganran yr ymatebwyr a ddewisodd y categori gorbryder uchel gynyddu o 28% yn ystod cyfnod amser B i 34% yn ystod cyfnod amser C. Roedd nifer yr ymatebwyr yn y categori isel iawn wedi gostwng o 21% yn ystod cyfnod amser B i 18% yng nghyfnod amser C.
- 12.4 Yn ogystal â'r cwestiynau ONS4, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau, os o gwbl, roedd y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig wedi achosi straen iddynt. Fel y gwelir yn Ffigur 23 isod, roedd y dewisiadau ymateb yn amrywio o 'llawer iawn o straen' i 'dim straen o gwbl'. Yn ystod cyfnod amser B, roedd 22% o ymatebwyr


⁸ Mae'r manylion ar gael yma: [Personal well-being user guidance - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk/personal-well-being-user-guidance) (cyrchwyd 22 Ionawr 2021)

⁹ Yn ôl yr arferiad adrodd ar gyfer mesurau boddhad â bywyd, bywyd gwerth chweil, a hapusrwydd ONS4, mae sgoriau 0-4 yn isel, 5-6 yn ganolig, 7-8 yn uchel, a 9-10 yn uchel iawn.

¹⁰ Yn ôl yr arferiad adrodd ar gyfer mesur gorbryder ONS, mae sgoriau 0-1 yn isel iawn, 2-3 yn isel, 4-5 yn ganolig, a 6-10 yn uchel.

wedi dewis yr opsiynau 'llawer iawn o straen' neu 'lawer o straen', ac roedd y ganran hon wedi cynyddu i 28% erbyn cyfnod amser C sy'n awgrymu bod ymatebwyr yn profi mwy o straen yn sgil pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig wrth i amser fynd rhagddo.

Ffigur 23: Newidiadau mewn profiad goddrychol o straen sy'n gysylltiedig â'r pandemig coronafeirws a'r mesurau i'w reoli



N= 897 (Y ddau gyfnod amser). Sylfaen = Pob ymatebydd. Cwestiwn yr Arolwg = I ba raddau, os o gwbl, y mae'r pandemig coronafeirws a'r cyfyngiadau i fynd i'r afael ag ef wedi achosi straen i chi?

13. Canfyddiadau: Parhau ag ymddygiadau ar ôl codi'r cyfyngiadau

13.1 Yn ogystal â'r cwestiynau ag ymateb categori sefydlog, roedd bocs testun rhydd wedi'i gynnwys hefyd. Gofynnwyd i gyfranogwyr yn y ddwy don nodi pa agweddau, ar eu ffordd o fyw neu eu hymddygiadau, os o gwbl, a oedd wedi newid ers cyflwyno'r cyfyngiadau COVID-19 y byddent yn hoffi eu cadw ar ôl codi'r cyfyngiadau. Dadansoddwyd yr ymatebion mewn ffordd ansoddol a'u dosbarthu'n gategorïau:

- Dydy'r cyfyngiadau symud ddim wedi achosi unrhyw newid sylweddol i fy mywyd
- Dydw i ddim eisiau cadw unrhyw agwedd ar fy ffordd o fyw yn ystod y cyfyngiadau symud, ac rwyf am ddychwelyd i'm ffordd o fyw flaenorol
- Gweithio gartref
- Teithio llai
- Newidiadau i diet ac ymddygiadau bwyta
- Newidiadau i ymddygiadau ymarfer corff
- Ymddygiadau siopa
- Treulio mwy o amser yn yr awyr agored
- Treulio mwy o amser ar hobiau
- Gweithio llai o oriau a chael mwy o amser rhydd
- Defnyddio technolegau rhithwir (e.e. Zoom neu Skype) yn amlach
- Mwy o amser gyda'r teulu, mwy o gysylltiad â ffrindiau a mwy o gyfranogiad cymunedol
- Lleihau gwastraff
- Mwy o ochelgarwch a bwriad i gadw pellter cymdeithasol

13.2 Yn y crynodeb canlynol o'r sylwadau, mae'r canrannau a nodir yn cyfeirio at gyfran yr 898 o ymatebwyr yn y ddwy don a gyflwynodd yr ymateb penodol; roedd rhai ymatebwyr wedi rhoi atebion sawl rhan, felly bydd y cyfansymiau cyffredinol yn fwy na 100%.

13.3 Yn ystod cyfnod amser B, ni wnaeth bron i draean o'r ymatebwyr (29%) wneud unrhyw sylw, neu fe wnaethant nodi nad oeddent am gadw unrhyw agwedd ar eu

ffordd o fyw neu ymddygiadau ar ôl y pandemig. Dywedodd 3% eu bod yn awyddus iawn i weld bywyd yn dychwelyd i'r hen drefn arferol. Roedd y canrannau hyn yn debyg iawn yn ystod cyfnod amser C, sef 31% a 3% yn y drefn honno. Dywedodd 4% o ymatebwyr yn ystod cyfnod amser B a chyfnod amser C nad oedd y cyfyngiadau wedi effeithio llawer iawn ar eu bywydau. Roedd y categori mwyaf o ymatebion yn ymwneud â newidiadau mewn arferion ymarfer corff, yn enwedig awydd i barhau i wneud mwy o ymarfer corff ar ôl dechrau gwneud hynny yn ystod eu hamser rhydd ychwanegol: cyfeiriodd 11% yn ystod cyfnod amser B a 12% yn ystod cyfnod amser C at y mater hwn, gyda hanner ohonynt yn cyfeirio at gerdded yn benodol. Yn ogystal â'r ymatebion yn pwysleisio gwerth ymarfer corff, cyfeiriodd 4% o ymatebwyr yn ystod cyfnod amser B at eu pleser newydd o dreulio amser yn yr awyr agored, yn enwedig wrth ymwneud â byd natur. Yn ystod cyfnod amser C, roedd y ganran hon wedi gostwng i 2%, a allai adlewyrchu'r ffaith bod yr ymatebion wedi'u casglu ym mis Tachwedd.

- 13.4 Yn ystod y ddau gyfnod amser, cyfeiriodd ychydig dros 1% o ymatebwyr yn benodol at y ffaith eu bod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd ac yn awyddus i fyw yn fwy gwyrdd o ganlyniad i'r pandemig.
- 13.5 Yn ystod cyfnod amser B, dywedodd 8% o ymatebwyr y byddent yn hoffi parhau i dreulio mwy o amser ar hobiau, ond roedd y ganran hon wedi gostwng i 4% yng nghyfnod amser C. Roedd hanner yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod eisiau treulio mwy o amser ar hobiau yn ystod cyfnod amser B wedi cyfeirio at arddio yn benodol, ond roedd y ganran hon wedi gostwng i lai na chwarter yn ystod cyfnod amser C, sy'n debygol o fod yn effaith dymhorol yn rhannol.
- 13.6 Yn ogystal, dywedodd 6% o ymatebwyr a oedd wedi nodi bod y cyfyngiadau symud wedi golygu eu bod yn byw bywyd tawelach a llai prysur yn ystod cyfnod amser B eu bod yn dymuno cadw'r agwedd 'amser rhydd' ar eu bywydau yn y dyfodol. Roedd y ganran hon wedi gostwng ychydig i 4% yn ystod cyfnod amser C. Yn ystod cyfnod amser B, mynegodd 5% awydd i leihau eu hamser teithio, gyda sawl un yn nodi awydd i ddefnyddio eu car yn llai aml, naill ai drwy leihau nifer eu teithiau neu drwy newid i gerdded neu feicio. Dywedodd llai na hanner y cant o ymatebwyr eu bod eisiau dychwelyd i deithio'n amlach, ac roedd yr ymateb hwn yng nghyd-destun

cael gwyliau dramor yn bennaf. Fodd bynnag, cafwyd gwahaniaeth sylweddol yn ystod cyfnod amser C: cyfeiriodd 7% at deithio yn benodol ond yn ystod cyfnod amser C dim ond dwy ran o dair (68%) o'r ymatebwyr hyn a nododd fwriad i barhau i deithio'n llai aml, gyda'r traean arall (32%) yn gobeithio dychwelyd at batrymau teithio blaenorol, a'r rhan fwyaf yn dweud eu bod yn awyddus i fynd ar wyliau. Eto, er y gallai hyn amlygu elfen o flinder â'r cyfyngiadau, mae'n bosibl bod effaith dymhorol ar waith, o ystyried bod data cyfnod amser C wedi'i gasglu ym mis Tachwedd pan oedd gwyliau yn yr haul yn syniad deniadol.

- 13.7 Yn ystod cyfnod amser B, roedd nifer o ymatebwyr (7%) eisiau gweithio gartref ar ôl codi'r cyfyngiadau symud, gyda rhai yn cyfeirio'n benodol at y ffaith bod gweithio gartref yn gyfle iddynt dreulio mwy o amser gyda'u teuluoedd. Roedd yr awydd i weithio gartref hyd yn oed yn gryfach yn ystod cyfnod amser C, gyda'r gyfran yn cynyddu i 10%. Roedd y broses o wella sgiliau TG er mwyn goresgyn teimladau ynysig oherwydd cyfyngiadau COVID-19 neu er mwyn gweithio gartref yn cael ei hystyried yn fantais gan rai ymatebwyr. Dywedodd 2.3% o ymatebwyr yn ystod cyfnod amser B eu bod eisiau parhau i ddefnyddio fideoalwadau i gysylltu â ffrindiau ac aelodau'r teulu, a defnyddio'r technolegau hyn at ddibenion mwy ymarferol fel cyfathrebu â meddygon teulu, nyrsys ac arbenigwyr iechyd. Cynyddodd y ganran hon ychydig i 2.6%¹¹ yn ystod cyfnod amser C.
- 13.8 Roedd yn ymddangos y byddai'r defnydd o TG yn dylanwadu ar arferion siopa unigolion yn y dyfodol. O'r 8% o ymatebwyr a gyfeiriodd at newidiadau i'w harferion siopa fel agwedd y byddent yn hoffi ei chadw yn ystod cyfnod amser B, dywedodd un o bob pump eu bod eisiau parhau â'u harferion 'clicio a chasglu' a siopa ar-lein. Dywedodd ymatebwyr eraill iddynt sylweddoli eu bod wedi byw bywyd rhy brynwriaethol yn y gorffennol a'u bod yn awyddus i barhau â'u hagwedd fwy darbodus at siopa yn y dyfodol. Rhoddwyd mwy o sylw i siopa yn ystod cyfnod amser C (cyfeiriodd 9% o ymatebwyr at yr agwedd hon), ac roedd chwarter ohonynt yn bwriadu gwneud mwy o siopa ar-lein, yn enwedig siopa bwyd.

¹¹ Er mwyn disgrifio'r newid rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C yn fwy cywir, mae ffigurau wedi'u nodi i un lle degol.

- 13.9 Yn ystod cyfnod amser B, dywedodd 5% o ymatebwyr fod eu harferion bwyta wedi gwella, a'u bod yn bwriadu parhau â'r newid hwn drwy goginio mwy o fwyd ffres, dibynnu llai ar brydau parod a phrynu llai o brydau tecawé. Nododd sawl ymatebydd eu bod yn bwriadu parhau i yfed llai o alcohol. Roedd llai o ymatebwyr wedi cyfeirio at wella arferion bwyta yn ystod cyfnod amser C, gyda'r gyfran yn gostwng ychydig i 4%. Un testun pryder oedd y ganran gymharol fawr (5% yn ystod cyfnod amser B) a nododd fod y cyfyngiadau wedi cynyddu eu pryderon am gael cyswllt â phobl eraill. Nododd rhai sylwadau fod unigolion yn awyddus i barhau i leihau eu lefelau rhyngweithio cymdeithasol a pharhau i fyw gyda mesurau diogelwch megis gwisgo gorchuddion wyneb; erbyn cyfnod amser C roedd 8% o ymatebwyr yn mynegi'r pryderon hyn.
- 13.10 Roedd yr holiadur yn ymwneud â chyfnod amser C yn cynnwys ail focs testun rhydd yn gofyn i ymatebwyr gofnodi beth roeddent yn edrych ymlaen ato yn fwy na dim ar ôl i'r cyfyngiadau COVID-19 ddod i ben. Yn y grwpiau o sylwadau isod, mae canrannau yn cyfeirio at gyfran yr 898 o ymatebwyr a gyflwynodd yr ymateb penodol hwnnw; roedd rhai ymatebwyr wedi cyflwyno atebion sawl rhan, felly bydd y cyfansymiau cyffredinol yn fwy na 100%.
- 13.11 Diolch i ddadansoddiad ansoddol, roedd modd dosbarthu'r ymatebion yn ddeg categori:
- Cyfarfod â'r teulu a ffrindiau (41%)
 - Teithio/mynd ar wyliau (24%)
 - Mynd allan i dafarndai, bwyta, y theatr etc (16%)
 - Ailddechrau gweithgareddau a gafodd eu hatal (16%)
 - Adennill rhyddid a gallu mynd allan i'r awyr agored yn amlach (8%)
 - Ddim yn edrych ymlaen at unrhyw beth yn benodol (5%)
 - Dileu'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb etc (5%)
 - Siopa (3%)
 - Dychwelyd i'r gwaith (1%)
 - Mynychu apwyntiadau meddygol/cael triniaeth a ohiriwyd (0.7%)

13.12 Roedd y categori mwyaf o ymatebion o bell ffordd yn ymwneud â chyfarfod ag aelodau'r teulu a ffrindiau, gyda 41% o ymatebwyr yn cyfeirio at hyn. Roedd un ar bymtheg y cant o ymatebwyr yn edrych ymlaen at ailddechrau eu bywydau cymdeithasol a mynd allan eto i dafarndai, bwytai, y theatr etc. Cyfeiriodd 7% o ymatebwyr at awydd i ddychwelyd i hobiau a gweithgareddau a oedd wedi'u hatal ar y pryd, fel mynd i'r eglwys neu gymryd rhan mewn chwaraeon. Dim ond 5% o ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn edrych ymlaen at unrhyw beth yn benodol ar ôl codi'r cyfyngiadau. Mewn cyferbyniad â'r 4% o ymatebwyr yn ystod cyfnod amser C a ddywedodd eu bod am barhau i deithio'n llai aml ar ôl codi'r cyfyngiadau, roedd 25% eisiau teithio yn amlach, yn enwedig mynd ar wyliau – rhai yn y DU a rhai tramor. O safbwynt y duedd i fod yn fwy gochelgar o gyswllt cymdeithasol y cyfeiriwyd ati yn gynharach, roedd 5% o ymatebwyr yn edrych ymlaen at ddileu'r angen i wisgo gorchudd wyneb a dileu cyfyngiadau eraill, gydag 8% arall yn awyddus i adennill eu rhyddid a mentro ymhellach yn yr awyr agored yn benodol. Er bod tua 3% o ymatebwyr wedi dweud yn eu hateb i'r cwestiwn blaenorol eu bod yn awyddus i barhau i siopa yn llai aml, roedd 3% yn edrych ymlaen at allu pori neu siopa mewn siopau ffisegol yn hytrach nag ar-lein. Yn ogystal, roedd 1% yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'r gwaith a 0.7% yn awyddus i fynd i'r afael â phroblemau meddygol.

14. Casgliadau

- 14.1 Roedd yr arolwg hwn yn ystyried ystod o ymddygiadau sy'n cael effaith ar yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r canfyddiadau yn dangos yn glir bod y pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar ymddygiadau unigolion. Roedd y rhan fwyaf o'r mathau o ymddygiadau wedi dechrau dychwelyd i lefelau cyn y cyfyngiadau symud erbyn cyfnod amser C.

Trafnidiaeth

- 14.2 Cafwyd gostyngiad mawr yn nifer y bobl yn cymudo i'r gwaith pan gyflwynwyd y cyfyngiadau yn ystod cyfnod amser B. Roedd y rhai a oedd yn parhau i deithio i'r gwaith yn debygol o ddefnyddio'r car, tra bod nifer y rhai yn rhannu ceir neu'n defnyddio'r trê'n wedi gostwng. Roedd y defnydd o fysiau'n ddigyfnewid. Roedd y cyfrannau ar gyfer pob dull teithio yn parhau i fod yn debyg iawn yn ystod cyfnod amser C. Wrth ystyried bwriadau yn y dyfodol a allai effeithio ar deithio, nid oedd awgrym sylweddol y byddai cynnydd mawr mewn gweithio gartref ar ôl codi'r cyfyngiadau: roedd cyfran y bobl a oedd yn bwriadu gweithio gartref ychydig yn fwy neu lawer yn fwy na chyn y cyfyngiadau symud yn aros yn sefydlog. Fodd bynnag, roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn bwriadu defnyddio technolegau rhithwir ar gyfer cyfarfodydd yn llai aml nag yr oeddent cyn y cyfyngiadau symud wedi lleihau rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C, sy'n awgrymu bod ymatebwyr yn llai gwrthwynebus i ddefnyddio'r technolegau hyn. Mae'r canfyddiadau yn awgrymu cynnydd bychan rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C o ran y bwriad i ddefnyddio technoleg rithiol ar gyfer apwyntiadau meddyg teulu. Fodd bynnag, roedd llai o awydd i ddefnyddio technolegau rhithwir ar gyfer cyfarfodydd cymdeithasol, ac roedd y gyfran a oedd yn bwriadu cael cyfarfodydd rhithwir ag aelodau'r teulu a ffrindiau yn amlach na chyn y cyfyngiadau symud wedi gostwng rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C.
- 14.3 Cafwyd gostyngiad yn nifer y bobl a ddywedodd y byddent yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn llai aml ar ôl dileu'r cyfyngiadau rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu dileu'r cyfarwyddyd 'teithiau hanfodol yn unig' ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus, neu'n deillio o'r ffaith bod pobl yn poeni llai am ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar y pryd. Cafwyd gostyngiad hefyd yng

nghyfran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn bwriadu hedfan yn llai aml rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C ynghyd â chynnydd yn y gyfran sy'n bwriadu hedfan mwy neu'r un faint ag yn y cyfnod cyn y cyfyngiadau symud. Gellid priodoli hyn i flinder cynyddol â chyfyngiadau'r pandemig ac awydd i adael y DU am gyfnod. O safbwynt newidiadau manteisiol posibl i'r amgylchedd yn y dyfodol y gofynnwyd i'r ymatebwyr amdanynt yng nghyfnod amser C, dywedodd bron i chwarter yr ymatebwyr eu bod yn bwriadu teithio yn llai aml nag y gwnaethant cyn y cyfyngiadau symud (o'i gymharu ag 11% a ddywedodd y byddant yn gyrru yn amlach), tra bod 28% yn bwriadu cerdded yn amlach, ac 8% yn bwriadu beicio yn amlach.

- 14.4 Cafwyd cefnogaeth glir i'r syniad o gynyddu lle ar gyfer cerdded a beicio mewn trefi a dinasoedd drwy leihau lle ar gyfer ceir a faniau, ac roedd cefnogaeth hyd yn oed yn gryfach i'r syniad o annog pobl i weithio gartref os oes modd. O'r ymatebwyr a ddywedodd fod mesurau wedi'u cyflwyno yn eu hardal i gynyddu lle ar gyfer cerdded/beicio, roedd bron i dri chwarter yn credu y dylid cadw mesurau o'r fath.

Bwyd a Diet

- 14.5 Roedd gostyngiad yn nifer y bobl yn gwneud eu siopa wythnosol mewn archfarchnad fawr, a chynnydd yng nghyfran y bobl yn gwneud eu siopa bwyd ar-lein yn ystod cyfnod amser B (o'i gymharu â chyfnod amser A). Roedd y newid yn y cyfrannau yn ystod cyfnod amser C yn gymharol fach.
- 14.6 O safbwynt dewisiadau dietegol, roedd pobl yn bwyta cig coch yn llai aml yn ystod cyfnod amser B nag yng nghyfnod amser A. Fodd bynnag, fe gafodd y newid ei wrthdroi yng nghyfnod amser C wrth i bobl fwyta cig coch yn amlach nag yn ystod cyfnod amser B, er nad oedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn bwyta cig coch bob dydd wedi dychwelyd i'r un lefelau ag yng nghyfnod amser A.
- 14.7 Cafwyd gostyngiad mewn lefelau bwyta cig gwyn yn ystod cyfnod amser B o'i gymharu â chyfnod amser A. Roedd cyfradd bwyta cig gwyn hefyd yn is yng nghyfnod amser C nag yr oedd cyn y pandemig COVID-19. Roedd lefelau bwyta pysgod a bwyd môr yn gymharol sefydlog yn ystod y tri chyfnod amser.

- 14.8 Nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol mewn lefelau gwastraff bwyd rhwng unrhyw un o'r cyfnodau amser, er bod y gostyngiad yng nghyfran y bobl a nododd nad oeddent yn gwastraffu unrhyw fara neu laeth yn ystod cyfnod amser C yn awgrymu y gallai lefelau gwastraff fod ar gynnydd eto.

Gwariant defnyddwyr

- 14.9 Cafwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd yn prynu bwyd o fwytai, ffreuturau a siopau tecawê yng nghyfnod amser B, o'i gymharu â chyfnod amser A. Cynyddodd hyn i raddau yng nghyfnod amser C ond roedd ymhell o lefelau gwariant cyn y pandemig. Roedd lleihad bychan hefyd yn nifer y bobl a brynodd eitemau mawr neu ddrud yn ystod cyfnod amser B o'i gymharu â chyfnod amser A, ond roedd y canrannau wedi dychwelyd i lefelau cyn y cyfyngiadau symud, neu'n rhagori arnynt, erbyn cyfnod amser C. Nodwyd gostyngiad mawr mewn gwariant ar ddillad ac esgidiau yn ystod cyfnod amser B, ac er bod y newid hwn yn dechrau gwrthdroi erbyn cyfnod amser C, roedd lefelau gwariant yn parhau i fod yn is na chyn yr achosion o goronafeirws yn ystod cyfnod amser A. Nid oedd y newidiadau mewn gwariant ar gategoriâu eraill – cynhyrchion iechyd, harddwch a thwtio; contractau ffôn, teledu a'r rhyngwrwyd; ac anifeiliaid anwes a bwyd anifeiliaid anwes – mor amlwg.

Defnyddio ynni yn y cartref

- 14.10 Yn ystod cyfnod amser B, roedd pobl yn diffodd goleuadau a theclynnau yn amlach nag yng nghyfnod amser A. Yng nghyfnod amser C roedd lleihad yng nghyfran y bobl a ddywedodd eu bod yn diffodd y goleuadau bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser.
- 14.11 Hefyd, mewn perthynas â defnyddio ynni, cafwyd cynnydd mewn lefelau pryderon am allu talu biliau ynni yn ystod cyfnod amser C o'i gymharu â chyfnod amser B. Dylid nodi y gallai effaith dymhorol fod yn berthnasol yn y cyswllt hwn, gan fod data cyfnod amser C wedi'i gasglu ym mis Tachwedd pan fydd defnydd o ynni yn cynyddu'n naturiol oherwydd yr angen i wresogi tai a defnyddio goleuadau artiffisial.
- 14.12 O safbwynt y technolegau sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni neu leihau'r defnydd o adnoddau, cafwyd cynnydd rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C

naill ai yn nifer y bobl a oedd wedi gosod, neu'n ystyried gosod, deunydd inswleiddio yn yr atig/muriau, mesuryddion clyfar, a systemau ynni adnewyddadwy, ac wedi prynu neu'n ystyried prynu ceir trydan neu hybrid.

- 14.13 Gofynnwyd i ymatebwyr sawl gwaith yr wythnos maen nhw'n cael bath a chawod, ac am faint o amser maen nhw'n aros yn y gawod. Roedd y data a gasglwyd yn ystod cyfnod amser B wedi dangos gostyngiad o ran sawl gwaith roedd pobl yn cael bath a chawod o'i gymharu â chyfnod amser A. Roedd cymedr sawl gwaith yr wythnos yr oedd pobl yn cael bath a chawod yr un fath ag yng nghyfnod amser C, sy'n dangos bod y newidiadau hyn wedi parhau. Newid bychan oedd yn y cyfnod amser yr oedd ymatebwyr yn ei dreulio yn y gawod ar draws y cyfnodau amser.

Hamdden

- 14.14 Mewn perthynas â gweithgareddau hamdden, cafwyd cynnydd mawr yn yr amser a dreuliwyd yn garddio yn ystod cyfnod amser B. Cafwyd gostyngiad sylweddol mewn ymweliadau â manau awyr agored lleol yn ystod cyfnod amser B, sydd i'w briodoli i'r cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, roedd hyn yn dechrau gwrthdroi yn ystod cyfnod amser C er gwaethaf y tywydd gwaeth a ragwelwyd ym mis Tachwedd. Fel y gellid disgwyl, cafwyd gostyngiad yn yr amser roedd pobl yn ei neilltuo ar gyfer siopa am eitemau nad oeddent yn eitemau bwyd yn ystod cyfnod amser B; er bod y newid hwn wedi gwrthdroi yn ystod cyfnod amser C, roedd cyfanswm yr amser a dreuliwyd ar y gweithgaredd hwn yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig COVID-19. Roedd lefelau amser yn ymgymryd â hobiau creadigol dan do yn ystod cyfnod amser B wedi cynyddu ychydig, ac roedd y cynnydd hwn wedi cynyddu ychydig eto yn ystod cyfnod amser C. Yn ogystal, cafwyd cynnydd yn yr amser a dreuliwyd yn coginio bwyd ffres yn ystod cyfnod amser B ond roedd hyn wedi gostwng erbyn cyfnod amser C. Roedd ymatebwyr yn dal i goginio bwyd ffres mwy yng nghyfnod amser C nag yr oeddent cyn y pandemig.

Ymddygiadau o blaid yr amgylchedd

- 14.15 Mewn cyfres o gwestiynau yn archwilio ymddygiadau o blaid yr amgylchedd – bwyta bwyd wedi'i dyfu'n lleol neu fwyd tymhorol, prynu cynhyrchion â llai o ddeunydd pacio, prynu eitemau ail-law, benthyg neu rentu eitemau, addasu eitem at ddefnydd gwahanol, a defnyddio eitem untro er bod dewis amgen aml dro ar gael (y

gwrthwyneb i ymddygiadau o blaid yr amgylchedd) – gwelwyd patrymau tebyg iawn yn y canlyniadau cyffredinol. Roedd yr holl ymatebion wedi amlygu gostyngiad sylweddol mewn ymddygiadau o blaid yr amgylchedd rhwng lefelau cyn y pandemig yn ystod cyfnod amser A a chyfnod amser B (ac eithrio ar gyfer eitemau untro lle'r oedd yr un patrwm data yn dangos cynnydd mewn ymddygiadau o blaid yr amgylchedd). Fodd bynnag, roedd y newid wedi gwrthdroi rhwng cyfnod amser B a chyfnod amser C, wrth i'r cyfrannau ddychwelyd i lefelau tebyg iawn i'r lefelau cyn COVID, rhai ychydig yn uwch a rhai ychydig yn is.

Safbwyntiau ar faterion amgylcheddol a chymdeithasol

